# ECO'R WYDDFA

Rhif 69 EBRILL 1982 Pris 20c

# DATBLYGIADAU AR GYRION LLANBERIS

**MAE Cyngor Arfon wedi derbyn grant o £89,000 oddi wrth Awdudrod Datblygu Cymru i glirio a thirlunio darn helaeth o dir "diffaith" ar lan llyn Padarn. Bwriad yr Awdurdod wedyn yw paratoi dwy neu dair o unedau ar gyfer diwydiannau bychain.**

Dengys y map isod ble mae'r tir dan sylw – sef rhan o chwarel Glynrhonwy ar waelod Allt y Glyn – rhwng y brifffordd a'r llyn. Yn ôl bob tebyg bydd y gwaith o glirio a lefelu'r tir rhwng llwybr yr hen reilffordd a'r briffordd wedi ei orffen erbyn diwedd yr haf. Disgwylir i'r unedau diwydiannol fod yn barod i'w meddiannu mewn tua blwyddyn.

**Pobl Leol**

Sicrhaodd y Cynghorydd Francis Jones o Lanberis yr 'Eco' y rhoddir "pwyslais mawr ar bobl leol" - y bobl hynny sy mewn diwydiannau bychain ar hyn o bryd ac sy'n awyddus i ehangu. Rhoddir ystyriaeth hefyd i bobl leol sydd â diddordeb mewn dechrau busnes.

**Nid 'Pentref Crefftau'**


Pwysleisir nad "pentref crefftau" yw'r datblygiad i fod. Mae'r Cyngor Sir, dan reolaeth pwyllgor Parc Padarn yn bwriadu datblygu'r math hwn o waith drwy addasu'r hen adeilad tafoli yn y Gilfach ddu ger Amgueddfa'r Chwarel yn dair neu bedair uned fechan ar gyfer crefftwyr. Byddai'r ymwelwyr i'r Amgueddfa a theithwyr rheilffordd y llyn yn cael y cyfle i weld y crefftwyr wrth eu gwaith a phrynu eu nwyddau.

Er bod costau'n dal i gynyddu ac er bod gwaith sylweddol i'w wneud eto ar y datblygiad yn y Gilfach Ddu mae'n debygol y gellid symud tua dwy uned i mewn yn ystod yr haf.

**Canolfan Canwio**

Nid oes yr un penderfyniad

*parhad ar dudalen 3*




## YR HEN BONT I'W DYMCHWEL

Ychydig oriau cyn i'r 'Eco' ei roi'n ei wely yng Ngwasg Gwynedd, daeth y newydd syfrdanol i'n sylw fod posibilrwydd i Bont Penllyn gael ei dymchwel. Deallwn – yn hollol answyddogol ar hyn o bryd – fod adroddiad ar gyflwr adeiladwaith y bont wedi ei baratoi, a bod yr adroddiad hwnnw yn argymell dymchwel y bont.

Mae'n ymddangos i archwiliad cyfrinachol gael ei wneud yn ystod mis Chwefror eleni, ac i wendidau difrifol gael eu darganfod. Credir mai cyfuniad o ddau beth oedd achos y gwendidau hyn, sef pwysau dŵr yn ymarllwys o Lyn Padarn yn ystod llifogydd trwm y gaeaf diwethaf, ac effeithiau'r rhew caled ar ddechrau'r flwyddyn.

Oherwydd nad yw'r bont yn hanfodol bellach i gario trafnidiaeth, teimlir mai rhatach fyddai dymchwel y bont na gwario miloedd o bunnau i'w hatgyweirio. Trist yw meddwl na chaiff y genhedlaeth nesaf y wefr o brofi sefyll yno –

'Pan fyddai'r nos yn olau
A llwch y ffordd yn wyn,
A'r bont yn wag sy'n croesi'r dŵr
Difwstwr ym Mhen Llyn.'

## CANU DROS GYMRU



Dyma 'Gwlith' – y grŵp gwerin modern o Ysgol Brynrrefail sy'n cynrychioli Cymru yn yr Ŵyl Ban-Geltaidd yng Nghill Airne ym mis Mai. Hon yw gŵyl werin bwysicaf y gwledydd Celtaidd. Daeth Gwlith i'r brig mewn cystadlaethau yn ddiweddar yn Aberystwyth. Yno fe'u dewiswyd i gynrychioli Cymru yng nghystadleuaeth y Gân Werin.

Derbyniasant fel gwobr ran o'u costau i fynd i'r Ŵyl – ond nid yw'n ddigon a bydd rhaid mynd ati i godi mwy o arian. I'r pwrpas hwn bwriedir cynnal cyngerdd

*Parhad ar dudalen 18*

## ARLUNYDD ADDAWOL



*Louise Bernard o Lanrug gyda'r llun a wobrwywyd. Trowch i'r Sibrydion o'r Ysgolion tudalen 13 am ei hanes.*

# ECO'R WYDDFA

**Rhif 69**
**EBRILL 1982**

*Argraffwyd gan Wasg Gwynedd Cibyn, Caernarfon*

*Cyhoeddwyd gyda chymorth Cymdeithas Gelfyddydau Gogledd Cymru*

## SWYDDOGION A GOHEBWYR

**GOLYGYDD NEWYDDION CYFFREDINOL**: Twrog Jones, 23 Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4051)
**GOLYGYDD ERTHYGLAU**: Dafydd Whiteside Tomas, Bron y Nant, Pontrhythallt, Llanrug (C'fon 3515)
**GOLYGYDD NEWYDDION**: Tony Elliot, Crud y Wawr, Bryneglwys, Penisarwaun (Llanberis 872438)
**TREFNYDD NEWYDDION YSGOLION**: Iwan Lloyd Williams, Bryn Idris, Llanberis (870515)
**DYDDIADUR Y MIS**: Miss Jane Morris, 'Rallt Isaf, 3 Pen y Bont, Ffordd Capel Coch, Llanberis (871561)
**FFOTOGRAFFWYR**: Ifan Parry, Morwel, Ceunant, (Waunfawr 321) Gwyndaf Jones, 60 Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4669). Gwyndaf Hughes, 20 Glanffynnon, Llanrug
**TREFNYDD HYSBYSEBION**: John Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug (C'fon 5605)
**TREFNYDD GWERTHIANT**: Ian Pierce, Swyn-yr-Awel, Llanrug (C'fon 3776)
**TRYSORYDD**: Gwyn Oliver Jones, 58 Bwthyn Gwyn, Ffordd Deiniol, Deiniolen
**TREFNYDD GWERTHIANT POST**: Mrs M. Evans, Lloc, Llanrug (C'fon 3227)
**GOHEBWYR PENTREFI**: Dyma'r bobl i gysylltu â nhw yn eich ardaloedd:
**BETHEL**: Geraint Elis, Sycharth (Portdinorwic 726)
**BETWS GARMON**: Mrs Brenda Jones, Bryn Tegid (Waunfawr 294)
**BRYNREFAIL**: D.G. Ellis, Gweledfa (Llanberis 871223)
**CEUNANT**: Ifan Parry, Morwel, (Waunfawr 321)
**CWM-Y-GLO**: Dafydd Price, Tŷ Capel (Llanberis 870550)
**DEINIOLEN**: Mrs Nancy Rowlands, 12 Pentre Helen (Llanberis 870267)
**DINORWIG**: O.R. Williams, 2 Bro Elidir (Llanberis 870671)
**LLANBERIS**: Mrs Siân Thomas, Tŷ'r Ysgol (Llanberis 870220)
**NANT PERIS**: T.J. Roberts, Llys Awel
**LLANRUG**: Mrs Eirlys Pierce, Swyn-yr-Awel (C'fon 3776)
**PENISARWAUN**: Mrs Mary Davies, 9 Llys y Gwynt, (Llanberis 872329)
**TAN-Y-COED**: Miss Megan Humphreys, 4 Tai Tan-y-coed (Waunfawr 355)
**WAUNFAWR**: Mrs G. Jones, Rhandir Mwyn (Waunfawr 626)
**TREFNYDD PLYGU**: Gwyndaf Hughes, 20 Glanffynnon, Llanrug
**TREFNYDD BUSNES**: Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (C'fon 4839)

## Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg ar
**EBRILL 29**
Deunydd i law'r golygyddion perthnasol
**EBRILL 21**
os gwelwch yn dda.

# LLYTHYRAU

## LLUNIAU'N DWYN ATGOFION

*Annwyl Syr,*

*Pleser digymysg i mi oedd gweld y ddau lun yn yr 'Eco' (rhifyn Mawrth) dan y pennawd, "Aelwyd Llanberis yn Eisteddfod Maesteg 1953". Ni chofiaf i mi erioed weld yr un o'r lluniau heb sôn am fod gennyf feddiant o un ohonynt. Yn naturiol ddigon daeth ffrydlif o atgofion a pheth balchder drosof o edrych yn ôl ar y cyfnod yna. Bellach 'rwyf wedi ymddeol (prysuraf i ychwanegu — ymddeoliad ifanc!) ond Dawnsio Gwerin Cymru yw canolbwynt fy ngweithgareddau o hyd, — gwaith ymchwil i hen ddawnsiau, darlithio, hyfforddi ar raddfa Cenedlaethol ac Arweinydd Dawnswyr Gwrych, Abergele. Cofiaf y criw yn y ddau lun yn dda rhoddaf eu henwau i chwi h.y. eu henwau bryd hynny.*

**Llun 1: Rhes gefn, chwith i'r dde,** *Gwen Morris, Nancy Owen, Nancy Lloyd Roberts, Fi, Cyril Jones, Joan Griffiths, Len Jones, Eira Owen a Jean Davies.*

**Rhes flaen, ch. i'r dd.,** *Ralph Jones, Arfon Davies, Selwyn Pritchard, Eben Wyn, Nancy Jones.*

**Llun 2:** *Gwynfor Roberts, Cyril Jones, Ralph Jones, Len Jones, Jean Davies, Catherine Griffith, Awen Parry, Nancy Owen ac Eunice Parry.*

*Meddyliais droeon am anfon gair i 'Eco'r Wyddfa' ac o'r diwedd dyma fi wedi gwneud. Hoffwn fanteisio ar y cyfle yma i anfon fy nghofion at yr hen griw, ble by nag y bônt a hefyd i wneud cais at unrhyw un o'ch darllenwyr pan yn clirio (yr hen chwilen glanhau y gwanwyn!) — os dônt ar draws hen foneti, hen beisiau gwyn hir, hen ffedogau, hen wasgodi, hen glos rhiciog pen-glîn — iddynt beidio â'u rhoi yn y bag sbwriel. Buaswn i yn bersonol yn falch o unrhyw wybodaeth a byddai'r Amgueddfa Werin Genedlaethol (San Ffagan) yn fwy na balch hefyd gan yn sicr mae hyn o bethau yn rhan werthfawr o'n hetifeddiaeth.*

*Pob hwyl i chwi gyda'r gwaith da yn 'Eco'r Wyddfa'.*

*Yn gywir iawn*
*Alice E. Williams,*
*25 Denbigh Court,*
*Ellesmere Port.*

## RHODDION

**£1.00: Mrs Emyr Pritchard, Deiniolen.**
**£1.00: Di-enw, Deiniolen**
**£1.00: Mrs B. Hughes, 28 Rhydfadog, Deiniolen**
**£2.00: Mr a Mrs Ernest Jones, Hafan, Deiniolen.**
**£2.00: Mrs Ellen Williams, 2 Y Bwthyn, Deiniolen**
**£5.00: Di-enw, Deiniolen**
**£1.00: Mrs Clara Roberts, Anfield, Llanberis.**
**£2.00: Mrs Dilys Jones, Cwm-y-Glo.**

## CARTREF I'R SIÔL FEDYDDIO

*Syr,*

*Mewn llythyr a anfonais i'r Eco (Rhifyn Rhagfyr) soniais am siôl fedyddio. Efallai y byddai o ddiddordeb i'ch darllenwyr i wybod fod Amgueddfa Hynafiaethau Cymreig Bangor wedi ei derbyn. Copiodd fy ngefnder, y Parch Herbert Thomas y cofiant yn Eglwys Llanddeiniolen i mi i'w anfon gyda'r siôl.*

*Nid oedd fy nghefnder a minnau wedi cysylltu â'n gilydd ers wyth mlynedd ac felly pleser mawr oedd derbyn llythyr oddi wrtho. Rhoddodd fanylion am y teulu a foddwyd ym Mhwllheli. Nid oeddwn yn gwybod mai brawd fy nhad oedd yr Owen Thomas a foddwyd ynghyd â'i wraig a'i dri phlentyn. Tair blwydd a hanner oeddwn i pan adawodd fy rheini Cymru.*

*Bydd y siôl yn cael ei harddangos ym Mangor os oes rhywrai yn dymuno ei gweld.*

*Yr eiddoch,*
*Eluned Owen,*
*74 Coney Green Drive,*
*Northfield,*
*Birmingham.*

(Cyfieithiad yw'r llythyr uchod. – Gol.)

## MEDAL Y PORTHMON?

Yr wyf fi yn byw yn Lloegr rhyw 27 milltir o Lundain, mewn tref o'r enw Dunstable, rhyw chwarter milltir o'm cartref mae ffordd o'r enw 'Drover's Way' (Ffordd y Porthmyn). Rhyw dair wythnos yn ôl, galwodd llanc ifanc acw, a dangos medal i mi a oedd o wedi ei darganfod efo ei fetal detector. Yr oedd wedi darganfod hon wrth ochr y ffordd yn 'Drovers Way', a chredai un o'i athrawon yn ei ysgol mai Cymraeg oedd yr ysgrifen arni, a dywedodd wrtho y dylai ddod â'r fedal i mi, gan fy mod yn gallu siarad a darllen Cymraeg.

Darganfu'r fedal yn gorwedd mewn clai rhyw bedair i chwe modfedd o dan wyneb y ddaear; yr oedd y fedal mewn cyflwr da, ac ar ôl ei glanhau medrais ddarllen pob gair arni (efo help hen chwydd wydr fy mam).

Medal canmlwyddiant yr Ysgol Sul ydyw. Ar un ochor y mae darlun o Thomas Charles, a'r geiriau 'Thomas Charles o'r Bala. Sylfaenydd yr ysgol Sabothol yng Nghymru ganwyd Hydref 14, 1755. Bu Farw Hydref 5, 1814.

Ar yr ochor arall mae'r geiriau: 'Canmlwyddiant yr Ysgol Sabothol yng Nghymru 1885'; ac yna ddarn o'r Ysgrythur, 'Chwiliwch yr Ysgrythrau, Canys ynddynt hwy yr ydych chwi yn meddwl cael bywyd tragwyddol, A hwynt hwy yw y rhai sydd yn tystiolaethau am danaf fi – IESU GRIST'.

Yr wyf fi yn cofio derbyn medal yn Ysgol Sul Capel Mawr Llanrug yn 1935, i ddathlu canmlwyddiant a hanner yr ysgol Sabothol, mae'r fedal hon gennyf o hyd.

Deallaf fod amryw o fedalau y canmlwyddiant ar gael yng Nghymru, ond sut y daeth y fedal hon i fod o dan y ddaear i'w darganfod yma ar y 'Drovers Way' Dunstable bron i gan mlynedd yn ddiweddarach yn 1982?

Mae R.T. Jenkins yn ei lyfr 'Y Ffordd yng Nghymru', yn sôn am y porthmyn yn casglu eu gwartheg mewn gwahanol rannau o Gymru a'u danfon i berfeddion Lloegr. Y mae Ffordd y Porthmyn yn Dunstable, yn un o'r ffyrdd a fyddai y porthmyn yn eu defnyddio ar eu ffordd i 'Smithfield'. Y cwestiwn yr wyf fi yn ei ofyn yw fel a ganlyn:

Pwy a'i collodd ai Porthmon, – wrth arwain
Ei wartheg a'i eidion,
Yma drwy wlad y Saeson,
Eiddo pwy oedd y fedal hon?

A oes gan unrhyw ddarllenydd yr Eco unrhyw esboniad arall i ddirgelwch y fedal, sut yn y byd y daeth yma?

Elwyn Jones
Vron
30 Beeoft Way,
Dunstable
(Gynt o'r Fron, Llanrug)

## STESION PONTRHYTHALLT

*Annwyl Syr,*

*Gofynnwch am wybodaeth ynglŷn â'r trên i Wersyll yr Urdd. Mentraf gynnig fod rhywbeth o'i le yn y llun.*

*Nid oedd ond un platfform yn stesion Pontrhythallt ac felly gan nad oes injian i'w gweld mae'n rhaid fod y trên yma yn mynd am Lanbêr ac nid am Gaernarfon. Tybed ai dod yn ôl o rhywle oeddynt? Does ond un esboniad arall. Ai trên wthio a thynnu 'Push and Pull' oedd hon? Pwy oedd y dyn ar y platfform tybed?*

*Yn gywir,*
*P.W. Jones,*
*(Cyn-orsaf Feistr Llanbêr, Cwm-y-glo a Phontrhythallt)*
*Fron Helig,*
*Brynffynnon,*
*Y Felinheli.*

## YSGOL BRYNERYR

*Annwyl Syr,*

*Dyma enwau llawn pawb ond un sydd yn y darlun. Rhes Gefn: Joyce Wynne; John Richard Jones; Lizzie May; ? Gwilym Frank Hughes, Elin Jane Jones. Rhes flaen: Gwladys Jones, John Idris Roberts a Diana Whitehead Jones.*

*Nid wyf yn sicr o'r flwyddyn, efallai mai 1922 neu 23.*

*Yn gywir,*
*Emrys Owen*
*9 Hafan Elan*
*Llanrug*

# DIM SIANEL 4 I'R WAUNFAWR

MAE nifer o bobl yn Waunfawr yn teimlo'n ddig iawn am na fydd Sianel 4 Cymru yn cychwyn darlledu i'r pentref ar yr un adeg â gweddill Cymru.

Dywedodd llefarydd ar ran trigolion Waunfawr y byddant yn cychwyn ymgyrch gref i bwyso ar awdurdodau S4C i wneud rhywbeth ar frys. Y bwriad yw trefnu deiseb i brotestio a'i danfon at bencadlys S4C yng Nghaerdydd. Mae amryw o bobl yn teimlo mor gryf ynghylch y peth fel eu bod yn ystyried gwrthod talu eu trwyddedau. Dywedodd un mam ifanc wrth ohebydd yr 'Eco' y bydd hyn yn "ergyd drychinebus, yn enwedig i blant ieuanc sydd wedi arfer gwylio rhaglenni Cymraeg BBC Cymru a HTV. Yr hyn sy'n warthus," meddai, "yw na soniwyd dim am y diffyg yma pan gychwynnwyd ar y gwaith o hysbysebu a chyflwyno gwasanaeth S4C i bobl Cymru. Rydym wedi cael ein twyllo a'n camarwain."

Yn ogystal â'r ddeiseb, bydd yr ymgyrchwyr dros gael gwasanaeth teg i'r Waunfawr yn cysylltu â Chyngor Gwynedd, Cyngor Arfon a'r Cyngor Cymuned.

Dyweodd Eirion Lewis ar ran yr IBA, sy'n gyfrifol am ddarparu'r trosglwyddion, eu bod yn gwneud eu gorau i brysuro'r broses o sicrhau gwasanaeth i bawb yng Nghymru.

Mae nifer o bobl eisoes wedi ysgrifennu i gwyno ato, ac mae'r rhai sy'n ceisio trefnu'r brotest yn annog eraill i lythyru ato hefyd. Ei gyfeiriad yw: Eirion Lewis, IBA, Tŷ Elgan, Heol yr Eglwys Fair (St. Mary's St.), CAERDYDD. Y ffôn yw Caerdydd 384541.

*parhad o'r dud. flaen.*

pendant wedi'i wneud ynglŷn â'r rhan arall o'r safle – sef y tir coediog rhwng yr hen reilffordd a'r llyn. Y tebygrwydd yw y bydd y lle yn cael ei dirlunio, ac yn y man, yn cael ei ddatblygu'n ganolfan canwio.

: : :

### CYNLLUN ARALL

Cynllun arall sydd wedi cael llawer o sylw yn y wasg ac ar y cyfryngau yn ddiweddar yw'r un i adennill y tir sy'n cynnwys hen dyllau chwarel y Glyn. Er mor agos yw yn ddaearyddol at yr un a soniwyd amdano uchod, nid yw'r ddau gynllun yn gysylltiedig.

Rhan o bolisi Adennill Tir Diffaith yr Awdurdod Datblygu Cymreig ydyw hwn hefyd, ac mae'r Awdurdod, mewn ymgynghoriad â Chyngor Arfon wedi cytuno i wario miliwn o bunnau ar glirio a thirlunio|safle.

Ar hyn o bryd mae rhan helaeth o'r tir ym meddiant cwmni Glen, sef grŵp o wŷr busnes o Gaernarfon. Ond cyn y gellir dechrau ar y gwaith o adennill bydd yn ofynnol ar i Gyngor Arfon brynu'r tir. Yn y dyfodol agos bydd trafodaethau i'r pwrpas hwnnw yn dechrau rhwng y perchnogion a'r Cyngor.

Gwnaeth Cwmni Glen ddau gais (ym 1962 ac ym 1973) am ganiatâd i ddatblygu'r safle yn ganolfan gwyliau. Fe'u gwrthodwyd ar y ddau achlysur, yn bennaf oherwydd nad oedd angen y fath gynlluniau yr adegau hynny ac am nad oedd y ffyrdd yn ddigon da.

Ond yn ystod y ddegawd ddiwethaf mae amgylchiadau'r ardal wedi newid. Cafwyd gwelliant mawr, yn bennaf oherwydd y Cynllun Trydan Dŵr, yn ansawdd y ffyrdd. Gwelwyd cynnydd sylweddol yn y diwydiant ymwelwyr – diwydiant sydd wedi ei ganoli ar ochr de-ddwyreiniol pentref Llanberis – grosaf trên bach yr Wyddfa, yr Oriel, yr Amgueddfa a lein bach y llyn.


Dywedodd swyddog yn yr Adran Gynllunio wrth yr 'Eco' y byddai'r Cyngor, ar ôl adennill y tir yn ei werthu "ar gyfer ei ddatblygu" i gwmni preifat. Cadarnhaodd y byddai'r cyngor "yn cadw gwyliadwriaeth fanwl ar y math o ddatblygu fyddai'n digwydd" ac y buasai'n rhaid parchu teimladau lleol.

Dyna fyrdwn yr hyn a ddywedodd y Cynghorydd Francis Jones hefyd wrth yr 'Eco' – sef nad oes cynlluniau ar hyn o bryd ar gyfer dim ond clirio'r tir. Ni ellir dechrau ar y gwaith hwnnw, sy'n debygol o gymryd amser maith i'w gwblhau, cyn bod y tir ym meddiant Cyngor Arfon. Pwysleisiodd Mr Jones y buasai'n rhaid trafod yn ddoeth unrhyw ddatblygiad pellach – trafodaeth fyddai'n ystyried dymuniadau'r bobl leol.



*Golygfa o'r Clegir tua llyn Padarn yn dangos rhan o'r tir diffaith y bwriedir ei adennill a'i dirlunio.*


# MAER NEWYDD ARFON



*Ddiwedd Mawrth etholwyd y Cynghorydd Francis Jones o Lanberis yn faer Arfon am y tymor nesaf. Mewn cyfarfod arbennig o'r Cyngor, nos Iau, 18 Mawrth, talwyd teyrnged iddo am ei waith di-flino sel cynghorydd ac fel y dirprwy-faer. tnid oedd gwrthwynebydd iddo am yr anrhydedd. Y dirprwy faer newydd fydd y Cynghorydd O.R. Jones o Lanllechid.*

*Llongyfarchiadau i'r Cynghorydd Francis Jones a'n dymuniadau gorau iddo yn ei swydd newydd.*

# MARATHON ARIANNOL DROS YR 'ECO'



Dyma Owain Eilir Jones o Hafan Elan, Llanrug. Yn rhifyn mis Ionawr cyhoeddwyd llythyr ganddo yn cynnig helpu'r Eco i godi arian drwy redeg Marathon. Ei fwriad yw cael digon o bobl i'w noddi.

Mae Owain wedi dewis rhedeg ar hyd y briffordd o Bontrug i ben Bwlch Llanberis ac yna yn ôl gan orffen wrth ei gartref yn sgwâr Llanrug. Peller o 25 milltir. Bydd hyn yn digwydd fore Sadwrn 17 Ebrill.

Ar hyn o bryd, mae Owain wrthi'n ymarfer yn galed ar gyfer ei daith. Peth braf fyddai gweld torf o bobl ar hyd ochrau'r ffordd fawr yn ei gefnogi ac yn dangos eu gwerthfawrogiad ohono.

'Rydym yn diolch iddo, unwaith eto, o waelod calon am ddangos ei ddiddordeb yn yr Eco yn y fath fodd ymarferol.

# GÔL-GEIDWAD BECHGYN GOGLEDD CYMRU

LLONGYFARCHIADAU i Steven, mab Mr a Mrs I.J. Owen, 14 Dolafon am gael ei ddewis fel golgeidwad i dîm pêl-droed gogledd Cymru. Mae newydd fod drosodd yn Nulyn yn chwarae gyda'r tîm. Hefyd efe yw golgeidwad tîm Gwynedd ac mae wedi bod am 'dreials' gyda Sunderland a'i alw yn ôl am gêm.

Y mae Steve yn un o aelodau gwreiddiol tîm cynghrair Gwyrfai, Cwm-y-glo, ac ar hyn o bryd yn mwynhau tymor llwyddiannus gyda gweddill yr hogiau. Pob lwc iddo yn y dyfodol.




**Newydd Sbon! Gweithdy Crefftau**




**SIOP AMAN Stryd Fawr**
**DEINIOLEN** *Ffôn: Llanberis 871201*

**Crefftwaith llechi, anrhegion a chofroddion lleol.**

# PENISARWAUN

**EISTEDDFOD PENISARWAUN**

Cynhelir yr Eisteddfod eleni yng Nghapel Glasgoed nos Wener Mai 14 i ddechrau am 5.30 p.m.

Mae'r Rhestr Testunau yn awr ar werth, felly mynnwch gopi ac anogwch blant ac ieuenctid y pentref i gystadlu, ar gystadlaethau llwyfan neu waith-cartref.

Erbyn i'r rhifyn hwn o'r 'Eco' ymddangos fe fyddwn wedi mwynhau noson yng nghwmni Rovi, gobeithio, fel un o'r gweithgareddau ychwanegol a drefnwyd gan Bwyllgor yr Eisteddfod.

YSGOL TAN-Y-COED – Sillafu Noddedig – Casglwyd £212.00 o ganlyniad i'r gweithgaredd uchod. Rydym yn gwerthfawrogi ymdrechion y plant, a chyfraniadau rhieni a chyfeillion. Bydd angen yr arian ar gyfer cludo'r plant i wersi nofio yng Nghaernarfon, rhyw fath o Noddi-rhag-Boddi.

Yr Urdd – Bu tua 20 o blant yn cystadlu yn yr Eisteddfod Gylch yn Ysgol Brynrefail, un ai fel unigolion neu fel aelodau o bartïon canu neu adrodd. Daeth Bedwyr Evans yn 2il ar yr Unawd Dan 10 oed, a chafodd fynd ymlaen i gystadlu yn Eisteddfod Sir Eryri.

Bu Mrs Ann R. Thomas, athrawes y Babanod adre'n sâl yn ystod y mis. Hyderir iddi gael adferiad llwyr. Mrs Carolyn Roberts, Pendinas Mawr fu yma fel athrawes-lanw.

BYDD GWEDDI BYD EANG Y CHWIORYDD – Bu gwasanaeth yng Nghapel Bosra, Penisa'rwaun i ddathlu Dydd Gweddi Byd-Eang y Chwiorydd. Arweinydd y cyfarfod oedd Mrs Eluned Porter, a thraddodwyd yr anerchiad gan Mrs Ann Evans. Mrs Nancy Jones, Meillionydd oedd yn cyfeilio. Yr oedd amryw o chwiorydd yr ardal yn cymryd rhan yn y gwasanaeth yn eu plith. Mrs M. Thomas, Mrs Eirlys Jones, Mrs Bessie Williams, Mrs Jennie Jones, Mrs Betty Hughes, Mrs Percy Williams, Mrs Eluned Jones, Cae Corniog, Miss Mair Ffoulkes, Mrs Mary Davies, Mrs Green, Mrs Evans, Bod Idris a Mrs Pat Larsen. Daeth nifer dda o chwiorydd ynghyd i ddathlu canmlwyddiant y mudiad.

EGLWYS ST HELEN – Cafwyd cyfarfod blynyddol Undeb y Mamau, nos Lun, Mawrth 2. Darllenwyd y fantolen ariannol gan Mrs O.C. Roberts, y trysorydd, a'r agenda gan Mrs M. Davies, yr ysgrifennydd. Ailetholwyd y swyddogion am dymor arall. Rhoddwyd y te gan Mrs B. Mowll a Mrs M. Davies. Dymunwn wellhad buan i Mr Fred Naylor sydd wedi bod yn yr ysbyty. Mae Dewi Jones, ŵyr Mrs M Jones, 5 Llys-y-Gwynt wedi bod yn Ysbyty Alder Hey Lerpwl, yn derbyn triniaeth. Dymunwn wellhad fuan iddo yntau.

GWASANAETHAU'R PASG – Dydd Gwener y Groglith. Awr Dawel o 2 o'r gloch hyd 3 o'r gloch. Sul y Pasg – Cymun Bendigaid am 10.30 a.m.

CLWB YR HEULWEN – Cafwyd cyfarfod cyntaf y Clwb ddydd Mawrth, Mawrth 16. Cafwyd prynhawn difyr yng nghwmni Mr a Mrs O.C. Roberts, Elidir View Llanrug, yn dangos sleidiau ac adrodd peth o'u hanes ar y daith a gawsant i Batagonia. Rhoddwyd y te gan Mrs K. Williams a Mrs E. Porter, Llys-y-Gwynt. Enillwyd y raffl gan Miss G. Jones. Bydd y cyfarfod nesaf ddydd Mawrth, Ebrill 20.

CLWB Y MERCHED – Bu cyfarfod cyntaf o Glwb y Merched, nos Fawrth, Chwefror 24. Y gŵr gwadd oedd y Parch G. Williams, rheithor Llanrug, a chafwyd noson ddifyr iawn yn ei gwmni yn canu gyda'r delyn. Croesawyd Miss Mair Ffoulkes i'n plith. Rhoddwyd y te gan Mrs B.W. a Mrs Nathan Jones. Enillwyd y raffl gan Mrs Margaret Williams.

Nos Fawrth, Mawrth 23, daeth Mr C. Williams o'r Frigâd Dân i roddi sgwrs am ei waith a ffilm. Rhoddwyd y te gan Mrs J.P. Jones a Mrs E. Jones. Enillwyd y raffl gan Mrs E. Porter a hi hefyd a ddiolchodd i Mr William ac am y te.

LLONGYFARCHIADAU i Mr M. Naylor ar gyrraedd ei un ar hugain oed yn ddiweddar.

Hefyd llongyfarchwn Mr a Mrs D. Roberts, 10 Bryntirion am fod yn daid a nain am y tro cyntaf. Ganwyd mab i Ieuan a Jennifer. Felly mae Mrs K. Williams, 8 Llys-y-Gwynt yn hen nain am y tro cyntaf. Llongyfarchiadau iddi hithau hefyd.

CYDYMDEIMLWN â Mrs E. Jones, 6 Bryntirion, yn ei phrofedigaeth o golli ei chwaer yng Ngharmel. Cydymdeimlwn hefyd â Mr Leslie Jones, Meillionydd, ar farwolaeth ei fam yn Waunfawr.

DYMUNWN YN DDA i Mr a Mrs Len Jones, Louise a Trystan sydd wedi mynd i fyw i Ddeiniolen dros dro. Dymunwn yn dda hefyd i Mr a Mrs Peter Jones a'r plant, Bron y Waen, sydd yn symud i fyw i Gernyw cyn bo hir. Mae'n dda gennym weld Mrs Hodgkinson, Pant Afon o gwmpas eto ar ôl triniaeth i'w choes.

DIOLCH – Dymuna Mr a Mrs Alwyn Williams, Cae Bythod Mawr, ddiolch am yr anrhegion a dderbyniodd eu mab bach Elgan Price.


**E.W.Pritchard**
**CENTRAL GARAGE**
**Llanberis**

Ffôn: 870202

TREFNWYR ANGLADDAU

CEIR AR GYFER PRIODASAU

GWASANAETH TACSI


**TYWYDD MAWR IONAWR 1982**

*(Diolch yn fawr i Mr Idris Owen, Minffordd, Penisarwaun am ei gerdd i'n hatgoffa o heth 1982.)*

**Trodd y gwynt yn ddig gynta', – codi awch**
**Onid cloi'r cymala';**
**Pobi'r dŵr yn bibau iâ,**
**A'r llethrog fro'n llithrigfa.**

**Yna ubain yn boenus – trwy y maes,**
**Tramwyo'n ddolefus;**
**Gwylltio, a chwafrio, ar frys,**
**Gan falu â nwyf hwylus.**

**Yna rhyw bluen eira, – pluen gu,**
**Pluen gain, y gynta',**
**Ond wedyn daeth miliyna';**
**Goeth wen bluen aeth yn bla.**

**Cau'r lôn, pob dim yn llonydd, – cartrefi,**
**Er turio, beunydd**
**Ynyswyd, pob dinesydd**
**Wrth ei dân yn tisian sydd.**

**Erglyw, ar hyd y weirglodd – gŵyn y praidd,**
**Y newyn a'i perodd;**
**Hanner y lleng a drengodd,**
**Dyma'n fflyd y rhai main ffôdd.**

**Wedyn rhyddhad y dadmer, – pawb yn llon,**
**Banllef mâd o bleser,**
**Nes gweled seigiau lawer,**
**Popeth cain yn filain flêr.**

**Dilewyd glân aelwydydd; – dŵr a mwd**
**Yw'r dramwyfa gelfydd;**
**Pob nant yn llifeiriant drydd,**
**A'r maes gwyn yn llyn llonydd.**

**Gwell hin ddaeth wedyn inni, – calon rwydd**
**I lanhau'r budreddi;**
**O Dad teg, na foed i Ti**
**Ail-anfon hyn eleni.**

**Idris Owen**



*Aelodau o Gwmni Drama Llanberis fu'n cyflwyno'r gomedi 'Treble Chance' gan Meirion Powell yn Neuadd Ysgol Brynrefail, Llanrug yn ddiweddar. Mae'r cwmni wedi bod ar daith yn ddiweddar. Maent wedi llwyfannu'r ddrama yn Llanrug, Garn Dolbenmaen, Ysbyty Ifan, Llanberis, Ysgol Dyffryn Nantlle a Theatr Seilo, Caernarfon. Cynhyrchydd y ddrama yw Miss Nia Wyn Williams, y Coleg Normal. Mae'r Cwmni'n awyddus i ddenu unrhyw un â diddordeb mewn actio (yn enwedig dynion!) neu i weithio tu ôl i'r llwyfan. Cysylltwch ag unrhyw aelod o'r Cwmni os gwelwch yn dda.*

## DRAENOG

**Glywsoch chi erioed am Warden Eglwys yn mynd â phais efo fo i wasanaeth gan lwyddo i'w gadael ar ôl yn yr Eglwys wedyn? Naddo? Wel mi ddigwyddodd yn Eglwys Llanrug yn ddiweddar. Am olygfa! Rhywun yn rhedeg allan gan weiddi dros bob man: "Mae ... wedi anghofo'i bais ...!" Lwcus mai am y cylchgrawn i ferched yr oedd yn sôn!**


I DRWSIO'R TELEDU NEU'R RADIO FFONIWCH...

**Osmond W. Shaw**

DEINIOLEN

*Ffôn:*

*LLANBERIS 870545*

**Gwasanaeth 'run diwrnod os ffoniwch cyn 10 o'r gloch y bore**


## DRAENOG

**DUFFARS DIRMYGUS**

Rai wythnosau'n ôl agorodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyflogaeth, Normal Tebbitt, far newydd yng nghlwb y Toriaid yng Nghaernarfon. Gelwir yr ystafell newydd foethus yn 'Vaynol Lounge' er coffa am Syr Michael Duff a wnaeth, yn nhraddodiad ei deulu, gymaint dros Doriaeth yn yr ardal hon.

Norman Tebbitt yw'r athrylith a gynghorodd y 4,000,000 a mwy sydd heb waith i fynd ar feiciau o gwmpas y wlad i chwilio am joban. Cymerodd nifer o'r di-waith lleol egwyl o'r beicio i aros y tu allan i Glwb y Ceidwadwyr i groesawu Tebbitt. Ysywaeth, pan gyrhaeddodd yr Ysgrifennydd Cyflogaeth doedd ganddo ddim i'w ddweud wrth y di-gyflog. Wedi'r cyfan y Duffars lleol tu mewn oedd pobol y Norman. Ond chwarae teg i'r Toriaid ni anghofiwyd yn llwyr am y di-waith yng nghanol rhialtwch a miri bedyddio'r 'Vaynol Lounge'. I gymeradwyaeth fyddarol y Duffars esboniodd y Norman yr hoffai gynnig swyddi i'r di-waith ond, meddai, "wedyn byddent yn rhedeg am filltiroedd i'r cyfeiriad arall."

Ôl-nodyn. Mae'r hanes uchod yn wir bob gair ond nid yw'r wir bod 'Eco'r Wyddfa' wedi penderfynu'n derfynol i gyhoeddi rhestr o enwau'r Duffars fu fwyaf dirmygus o'r di-waith.

# CEUNANT

**Y Diweddar Mr Evan Parry, Bodafon, Ceunant**

Yn blygeiniol ddydd Mawrth, Mawrth 9fed ac yntau yn 81 mlwydd oed bu farw'r brawd annwyl a dirodres hwn yn ei gartref Bodafon. Un o hen drigolion ardal y Ceunant ydoedd, yn fab ieuengaf i Hugh ac Elisabeth Parry, Bodafon. Ganwyd ef yn y Ceunant, ac yno y treuliodd ei holl ddyddiau. Dechreuodd ei yrfa, ar ôl iddo adael ysgol, fel prentis mewn siop dilledydd. Ymhen ychydig amser dechreuodd fusnes ei hun cyn troi ei wyneb o'r diwedd tua Chwarel Dinorwig lle bu'n gweithio hyd ei ymddeoliad. Yn y chwarel, fel ym mhobman arall, yr oedd yn hynod o gymeradwy gan bawb ar bwys ei foneddigeiddrwydd tawel a'i gymeriad hoffus a didwyll. Yn 1948 priododd â Miss A.L. Jones, o Fferm y Garth, Llanrug. Bu'r briodas yn eithriadol o hapus ar hyd y blynyddoedd. Y mae colli Mr Evan Parry yn golled na ellir ei mesur, nid yn unig i'w deulu, ond hefyd i'w Eglwys yn y Ceunant, lle bu'n Flaenor ffyddlon ac ymroddgar am 46 o flynyddoedd. Magesid ef ar aelwyd grefyddol oedd â pharch i bethau gorau bywyd. Bu ei dad a'i daid yn flaenoriaid yng Nghapel Ceunant o'i flaen; a chadwodd yntau'n ffyddlon i draddodiadau cysegredig yr aelwyd y magwyd ef arni i'r diwedd. Rhoddodd ei orau i'w gapel ar hyd ei oes. Ef oedd Trysorydd yr eglwys ers blynyddoedd lawer, ac ef hefyd a weithredai bellach fel Ysgrifennydd y Cyhoeddiadau, gan groesawu'r pregethwyr a chyhoeddi'r oedfaon o Sul i Sul. Er iddo yn y blynyddoedd diwethaf yma gael ei boeni gan anhwylder ar y galon, gellir dweud amdano yn ei berthynas â'r capel fod ganddo "galon i weithio". Daliodd i fynychu'r oedfaon yn y capel i'r diwedd, er gwaethaf pob llesgedd corff, hyd y Sul cyn ei farw. Bu'n gyfrwng yn llaw Duw i gadw drws Capel y Ceunant yn agored mewn cyfnod o ddifrawdwer a materoliaeth llethol, a theimlir fod bwlch mawr iawn ar ei ôl. Bu'r angladd ddydd Gwener Mawrth 12 pryd y gwasanaethwyd ym Modafon ac ar lan ei fedd ym Mynwent y Plwyf Llanrug gan ei weinidog y Parch W.O. Roberts. Cydymdeimlir yn ddwys iawn â'i weddw, ac â'r teulu oll yn eu trallod.

W.O.R.

DIOLCH – Dymuna Mrs Evan Parry, Bodafon, ddiolch i feddygon Waunfawr, y Parch W.O. Roberts, ffrindiau a chymdogion am bob cymorth a chydymdeimlad a dderbyniodd yn ei phrofedigaeth.

# BETHEL

BEDYDD – Yng nghapel Bethel fore Sul, Mawrth 7, bedyddiwyd Kelly, merch fach i Mr a Mrs Gwilym H. Williams, 2 Bryn Hyfryd, Bethel gan y gweinidog, y Parch Ronald W. Roberts. Bore Sul, Mawrth 14, bedyddiwyd Sioned Catrin merch Mr a Mrs B. Davies, Garth Glanllyn. Hefyd David Peters, mab Mr a Mrs Charles Peters, 13, Cremlyn. Bedyddiwyd gan y gweinidog y Parch W.R. Williams.

SEFYDLIAD Y MERCHED – Cynhaliwyd cyfarfod Chwefror yn yr ysgol nos Iau, y 18fed gyda Mrs Gwyneth Williams, Llain yr Ardd yn llywyddu. Dangosodd Mrs Lily Barlow, 40, Bro Rhos sut i wneud Macrame a diolchwyd iddi gan Miss Nancy Humphreys, Ty'n Rhos. Darparwyd y te gan Mrs M.G. Williams, Gwylfa a Mrs Sally Hughes, 34, Bro Rhos.

PLAID CYMRU – Nos Fercher, Ebrill 14, yn y Neuadd, cynhelir noson o Gawl a Chân yng nghwmni Rovi a Gwlith. Dechreuir am 7.30 a'r tâl fydd 60c.

LLONGYFARCHIADAU i Margaret ac Idris Rees, 6 Y Rhos ar enedigaeth mab, Euros, brawd i Llinos Wyn. Hefyd i Ellen a Raymond Jones, Almeira ar enedigaeth mab, Arwel, brawd i Irfon a Nia.

MERCHED Y WAWR – Ar Fawrth 10, aeth y gangen i Westy Gwynedd Llanberis, i ddathlu Gŵyl Ddewi. Cafwyd noson ddifyr iawn yng nghwmni Mr Dafydd Williams, Hafod. Trefnodd Mr Willams nifer o gystadlaethau amrywiol a chafwyd beirniadaethau craff a manwl ar y cynnyrch.

Ar nos Fercher, Mawrth 17, derbyniodd y gangen wahoddiad i gangen Merched y Wawr Cwm y Glo. Bu'r grŵp lleol Gwlith yn diddori a chafwyd swper arbennig iawn. Diolchwyd gan Miss Mat Pritchard, Cwm y Glo a Mrs Mair Price, Bethel.

Ar Ebrill 23 yn y Neuadd am 7.30 ceir perfformiad o'r ddrama 'Cilwg yn ôl' gan Gwmni Drama Llwyndyryus.

PRIODAS – Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Valerie Pritchard, Llys Ieuan a Mr John Owens, 27, Glanffrydlas, Bethesda ar eu priodas ddydd Sadwrn, Chwefror 27.

CARNIFAL – Mewn Noson Goffi yn y Neuadd nos Wener, Mawrth 12, dewiswyd Rhian Parry Waen Deg yn frenhines y Carnifal am eleni, a'i gosgordd fydd Cathy Parry, Catrin Evans a Lynne Hardwige. Tynnwyd yr enwau gan y Parchedig W.R. Williams ac arweinwyd y noson gan Mr Samuel Jones, Cefn, Cadeirydd Pwyllgor y Carnifal.

CYDYMDEIMLO – Ddydd Llun, Mawrth 15 bu farw Mr T. Jones, 13 Bro Rhos a Mr T. Lloyd Williams, 11 Cremlyn. Estynnwn ein cydymdeimlad i'r ddau deulu yn eu profedigaeth.

YR URDD – Llwyddodd nifer o blant yr Urdd yn Eisteddfod Gylch yr Urdd a gynhaliwyd yn Ysgol Brynrefail ar y 6ed: Menna Williams, Meinir D. Williams, Angharad Price, Manon D. Williams a'r Gân Actol. Er na lwyddodd yr un i fydn trwodd i'r Eisteddfod Gendlaethol bu cystadlu brwd yn yr Eisteddfod Sir ym Mangor. Noson cyn yr Eisteddfod ym Mrynrefail rhoddodd plant yr Urdd gyngerdd yn y Neuadd ac i ddangos eu diolch i Mrs Ann Hopcyn am ddysgu a chyfansoddi llawer o gaenuon y gân actol cyflwynwyd blodau iddi. Gwnaed yr un peth i Mrs Rita Williams am ei gwaith o ddysgu'r Côr Adrodd.

CLWB Y RHOS – Nos Sadwrn, Mawrth 27 aeth aelodau'r Clwb i Gastell Cidwm am eu cinio blynyddol. Y gŵr gwadd oedd y Parch W.R. Williams. Swyddogion y clwb am y flwyddyn nesaf fydd: Cadeirydd, Mr Ifan Owen; Is-gadeirydd, Mr Gwilym Jones; Trysorydd, Mr Dafydd Williams; Ysgrifennydd, Mr J.E. Thomas.



*Brenhines Rhian ac aelodau'r gosgordd.*

## CYMDEITHAS EPILEPSI

**GLANNAU MERSWY A GOGLEDD CYMRU**

Wythnos Genedlaethol Epilepsi
Mai 10-16, 1982

*Nid yw epilepsi yn afiechyd heintus — dim ond un a gam-ddehonglir*

Fe fydd y Gymdeithas Epilepsi yn canolbwyntio ar yr angen cael y cyhoedd o bob cwr o gymdeithas i ddeall epilepsi'n well.

Am ran helaeth o'i fywyd ni ymddengys yr un sy'n dioddef o epilepsi yn anabl – mae'n iach. Sydynrwydd yr ymosodiadau sy'n brawychu eraill ac yn creu problemau cymdeithasol. Pan mae ffrind neu gydweithiwr cyffredin yn sydyn yn syrthio i'r llawr mewn llewyg, fe ymetyb yr amharod a'r drwgdybus gyda syndod, arswyd neu ddychryn. O ganlyniad fe deimla'r sawl sydd yn dioddef o epilepsi yn ddigalon ac unig iawn.

Mae Cymdeithas Epilpesi Glannau Merswy wedi llafurio'n galed am chwarter canrif i hyfforddi'r cyhoedd a chreu agwedd mwy goleuedig tuag at epilepsi. Cred y Gymdeithas y dylai pob unigolyn wybod beth yn union yw'r salwch a sut i ymgeleddu rhywun sy'n cael ffit.

Yn ystod Wythnos Genedlaethol Epilepsi fe fydd y Gymdeithas yn trefnu gwasanaeth ffôn fydd yn rhoi gwybodaeth a chyngor.

**Ffoniwch**: 051-236-0990 rhwng 9.30 a.m. a 5.00 p.m.

**Cyfeiriad**: The Secretary, Mersey Region Epilepsy Association, 138, The Albany, Old Hall Street, Liverpool. L3 9EY


A hefyd:
Cymdeithas Epilepsi Gwynedd, Rhoslan, 13 Ystad Coetmor, Bethesda, Bangor, Gwynedd. LL57 3DR. Ffôn: Bethesda 601437 ar ôl 5.00 p.m.

## GWIREBAU

1. Un o gyfrinachau bywyd hir a dedwydd yw maddau popeth i bawb bob nos cyn cysgu.
2. Os yw esblygiad (evolution) yn wir, pam nad oes gan famau fwy na dwy law?


W.J.GRIFFITH
PLYMAR
A GOSODWR
GWRES CANOLOG
PANT TIRION, LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 3248
GOSODWR SWYDDOGOL
SYSTEMAU
GWRESOGI OLEW
GWRES BP
Aelod o'r National Association of Plumbing and Mechanical Services Contractors.
Dim un dasg rhy fychan,
Dim un dasg rhy fawr..

STORFA
Mace
O.R. & M. PARRY
Sgwâr
Llanrug
Caernarfon 2790
Dewis hael
o fwydydd, llysiau
a diodydd

AM DRIP CYFFYRDDUS, DIOGEL A RHAD
I BLE BYNNAG Y BO . . .

BWSIAU ARFON
LLANRUG
(ERIC MORRIS)
Ffôn: Caernarfon 5175
neu Bangor 51981

## COFNODI ARYSGRIFAU CERRIG BEDDAU

Eleni bydd rhan o hen fynwent Llanddeiniolen yn cael ei chlirio a'i thacluso. Mae gwaith blynyddol o dorri gwair a thacluso mynwentydd, bellach wedi mynd yn anodd a chostus. Rhaid cofio hefyd fod teuluoedd llawer o'r rhai sydd wedi eu claddu, un ai wedi symud o ardal i fyw neu wedi darfod â bod. 'Does neb felly ar ôl i ofalu am y beddau. Dyma'r sefyllfa ledled Cymru, a'r canlyniad yw i lawer o fynwentydd dyfu'n wyllt gyda drain a mieri. Oherwydd hynny, mae llawer o eglwysi wedi penderfynu clirio'r mynwentydd er mwyn cael trefn ar y tir o amgylch adeiladau'r eglwys. Mae hyn yn aml yn golygu symud cerrig beddau a'u hail-leoli.

Yn anffodus, pan fo hyn yn digwydd, mae rhan bwysig o hanes lleol a hanes teuluoedd y plwyf yn cael ei golli. Oherwydd hynny, mae Cymdeithasau Hanes Teuluoedd ym Mhrydain yn pryderu oherwydd fod dogfennau ysgrifenedig pwysig ynglŷn â hanes teuluoedd yn cael eu colli. O ganlyniad i hyn, penderfynodd y Cymdeithasau Hanes Teuluoedd sefydlu rhaglen o gofnodi holl (ie, holl!) arysgrifau cerrig beddau yn holl fynwentydd y wlad. Tasg enfawr! Ond gobeithir dod i ben â'r rhaglen oherwydd y cynnydd aruthrol yn niddordeb pobl ynglŷn â hanes eu teuluoedd.

Mae record gyfan wedi ei mynegeio, o holl arysgrifau cerrig beddau mewn mynwent, o werth amhrisiadwy i'r hanesydd teuluol. Mae cofnodi'n fanwl sylwadau'r teulu am yr ymadawedig yn rhoi gwybodaeth werthfawr iddo am y teulu hwnnw – gwybodaeth nad yw wedi ei chofnodi'n aml mewn unrhyw ddogfen arall. Mae safle'r cerrig beddau mewn mynwent o'r pwys mwyaf hefyd, oherwydd yn aml iawn, mae aelodau o'r un teulu wedi eu claddu'n agos i'w gilydd – er bod eu cyfenwau ac enwau eu cartrefi'n aml yn gwahaniaethu. Gall grŵp o feddau wedi eu lleoli gyda'i gilydd roi syniad i'r hanesydd o berthynas gwahanol bobl â'i gilydd.

Mae cofnodi tameidiog o rannau o fynwentydd wedi ei wneud yn barod. Un enghraifft o hyn yw gwaith Myrddin Fardd – 'Gleanings from God's Acre'; ac yn ystod y blynyddoedd diwethaf hyn, cafwyd amryw o gasgliadau gwerthfawr o englynion wedi eu cofnodi oddi ar gerrig beddau. Un o'r rhain oedd casgliad y diweddar G.T. Roberts, Llanrug – 'Llais y Meini'. Ond er mor werthfawr yw casgliadau o'r fath, nid **cofnod cyflawn** mohonynt, a dyna'r diffyg pennaf ar hyn o bryd.

Mae Cymdeithas Hanes Teuluoedd Gwynedd eisoes wedi dechrau ar y gwaith o gofnodi arysgrifau cerrig beddau mewn amryw o fynwentydd yng Ngwynedd. Yn naturiol, maent yn cychwyn gyda'r mynwentydd y gwyddys eu bod i'w clirio – ac y mae Llanddeiniolen yn un o'r rheini. Mae'r gwaith eisoes wedi cychwyn, a chynllun o'r fynwent wedi ei gwblhau. Mae'r cerrig beddau hefyd wedi eu rhifo er mwyn hwyluso'r gwaith o gofnodi. Aelod o'r Gymdeithas sy'n gyfrifol am y gwaith hwn yw Mr W. Roberts (C'fon 2844).

Os oes unrhyw un o ddarllenwyr yr 'Eco' â diddordeb yn y gwaith, yna cysylltwch â Mr Roberts yn ddi-oed, ac fe fydd yn falch iawn o roi cyngor i chwi ynglŷn â'r hyn sydd angen ei wneud.

## BETWS GARMON

YN YR YSBYTY – Anfonwn ein cofion at Mrs M.C. Jones, Bryn Afon sy'n ysbyty Dewi Sant, Bangor ac edrychwn ymlaen am ei gweld gartref yn fuan.

## AR WERTH

**Beic Raleigh Tomahawk** coch mewn cyflwr da iawn. £30 n.c.a. Ffôn: Caernarfon 3577.

**Cadair freichiau newydd** o ddefnydd brethyn brown-frith, breichiau pren. Pris £10 (angen ei lle). Margaret Evans, Lloc, 12 Ffordd Glanffynnon, Llanrug. Ffôn Caernarfon 3227.

## *Y.D.N. (CND) CEFNOGAETH LEOL*

Mae'r gangen leol o'r Ymgyrch Diarfogi Niwcliar yn mynd o nerth i nerth. Yn dilyn y noson goffi lwyddiannus yn Llanberis yn ystod y mis a aeth heibio a'r gefnogaeth eang drwy'r fro i'r ddeiseb yn erbyn arfau niwcliar fe gynhelir cyngerdd roc ym Mron Eryri yn Llanberis, nos Wener, Ebrill 30. Mae cystadleuaeth llunio posteri ar gyfer yr Ymgyrch ar y gweill; cysyllter â J. Thomas (Llanberis 748) am fanylion.

# DINORWIG

O'R YSBYTY – Da croesawu o'r ysbyty, Mrs Eileen Phillips, 6 Maes Eilian, hefyd Mr Gwilym G. Jones, Foel, wedi triniaeth feddygol.

CYFARFOD GWEDDI BYD-EANG Y CHWIORYDD – Mawrth 5 1982 – Cynhaliwyd cyfarfod o'r uchod yn Sardis (B) eleni. Yr arweinydd oedd Mrs Betty L. Roberts, 11 Maes Eilian. Y llais oedd Mrs Irene Morris, 4 Maes Eilian. Rhoddwyd yr anerchiad ar y thema "Pobl Dduw" gan Miss Ellen Wynne Jones, Ty'n Fawnog. Y cyfeilydd oedd Mrs M. Hughes, Groeslon Uchaf. Cymerwyd rhannau hefyd gan Mrs Elizabeth Jones, Foel Gron; Mrs Medwen Griffith, Foel Cottage; Mrs Dilys Williams, Tŷ Capel Dinorwig; Mrs Annie Roberts, 3 Maes Eilian; Mrs Katie L. Hughes, 2 Maes Eilian; Mrs Maggie Roberts, 8 Maes Eilian; Mrs Jennie Williams, 12 Maes Eilian; Mrs Megan P. Morris, Minffordd; Mrs Katie Griffith, Arwelfa; Mrs Ida Thomas, Tŷ Capel Sardis. Diolchwyd gan yr ysgrifenyddes, Mrs Nellie Williams, 2 Bro Elidir a drefnodd y cyfarfod. Gwnaed casgliad o £6 tuag at Gymdeithasau Llenyddiaeth Cristnogol.

CYMDEITHAS LENYDDOL UNDEBOL DINORWIG – Nos Iau, Mawrth 4 yn y Ganolfan bu cyfarfod olaf y gymdeithas am y tymor eleni. Trefnwyd noson o Gaws a Chân gan y chwiorydd. Cafwyd noson ddifyr. Rhoddwyd eitemau gan yr aelodau mewn caneuon Cymraeg ac eitemau personol. Arweiniwyd y canu gan Mrs Betty L. Roberts, 11 Maes Eilian a chyfeiliwyd gan Mrs M.E. Hughes, Groeslon Uchaf. Cafwyd unawd o emyn gan Mr David J. Thomas, Tŷ Capel Sardis, Unawd gan Mrs Betty L. Roberts, detholiad ar yr organ geg gan Mr O.R. Williams, 2 Bro Elidir, stori gan Mr Hugh Williams, Paradwys, Môn. Cafwyd gair byr gan y Parch Ifor L. Williams (B) Penuel. Talwyd diolch gan Mr Hugh Thomas, 1 Bro Elidir. Llywyddwyd y gweithgareddau gan Mr O.R. Williams, 2 Bro Elidir. Trefnwyd i gael gwibdaith yn ystod yr haf. Codwyd pwyllgor newydd am y tymor newydd. Y swyddogion yw: Llywydd – Mr R.H. Williams, Tŷ Capel Dinorwig; Ysgrifennydd – Mr David J. Thomas, Tŷ Capel Sardis; Trysorydd – Miss Marian Jones, 7 Bro Elidir.

Nos Iau, Mawrth 11 yn y Ganolfan bu pwyllgor y Gymdeithas yn trefnu rhaglen ar gyfer y tymor nesaf. Tynnwyd rhaglen amrywiol allan.

MARW – Ddydd Sul Mawrth 21 yn ei chartref Pendyffryn, Dinorwig bu farw Mrs Laura Jones yn 87 mlwydd oed. Cydymdeimlir â Mr a Mrs G.E. Pritchard, mab yng nghyfraith a merch; Mr R. Trefor Pritchard, ŵyr, hefyd â'i chwaer Mrs N. Griffith, Rhydfadog ynghyd â'r cysylltiadau teuluol eraill.

LLONGYFARCH – Llongyferchir Miss Olwen B. Roberts, Tŷ'r Ysgol ar basio'i harholiadau gyda gwaith nyrsio plant yng Ngholeg Technegol Bangor. Pob dymuniad da i'r dyfodol.

COFION – Ein cofion at y cleifion yn yr ardal. Gwellhad buan i chwi.

## EFAIL NED Y GOF FFERINJIAN



*Dyma lun wedi ei dynnu yn efail Ned y Gof, Fferinjian cyn 1939. Ar y chwith mae'r diweddar John Henry Jones, Ysgoldy Mawr gynt (sef brawd Robin Fawr, Brynsiencyn). Ned y gof sydd yn y canol — ond pwy yw'r dyn sy ar y dde? Anfonwch atom os ydych yn ei adnabod.*

*Ein diolch i Meirion Thomas, gynt o Lanberis, rwan o Bentre Berw, mab yng nghyfraith John Henry Jones am gael benthyg y llun.*

## *PRIODI GWEDDW*

Yn ystod pregeth ar 'Berffeithrwydd y Cristion', rhoes y pregethwr sialens i unrhyw un a gredai ei fod yn berffaith i sefyll ar ei draed. Cododd dyn bychan, diniwed yr olwg yn y cefn.

"Ydych chi'n meiddio dweud eich bod yn berffaith?" holodd y pregethwr.

"Nac ydw", oedd yr ateb, "ond rydwi'n sefyll ar ran gŵr cynta'r wraig 'cw."


**CABS PADARN**

**FFÔN: LLANBERIS 871347**

**Gwasanaeth Tacsi a Bws Mini**

**Gwasanaeth Maes Awyr a Phorthladd**

**Unrhyw bellter: Hur Gontract**



**Ar gyfer pob parti . . .**
**I ddathlu pob achlysur . . .**



**Gwesty'r Foelas**

(Richard a Meirwen Thomas)

**Llanrug**

*Ffôn: CAERNARFON 4652*

# LLANRUG

MERCHED Y WAWR – Nos Fawrth, Mawrth 9, dathlodd Cangen Llanrug o Ferched y Wawr Ŵyl Ddewi yng Ngwesty Gwynedd, Llanberis. Cyflwynwyd y wraig wadd, Miss Alice Eileen Williams gan Miss Phyllis Ellis, ac wedi sgwrs ar Ddawnsio Gwerin, ymunodd rhai o'r aelodau i ddawnsio. Trefnwyd swper o gyw iâr mewn basged yn y gwesty.

Hysbyswyd yr aelodau mai stondin eliffant-gwyn a ddisgwylid i'r gangen gymryd gofal ohoni yn y Ffair Wanwyn a gynhelir yn Neuadd y Fyddin, Caernarfon, ddydd Sadwrn, Ebrill 3. Cydymdeimlwyd â phriod Mrs Myfi Roberts ac â Mrs Nansi Lovatt yn eu gwaeledd. Dymunwyd adferiad buan. Diolchwyd gan Mrs Beth Ann Williams. Cynhelir y cyfarfod nesaf yn Festri Capel Mawr pryd y disgwylir Mr Gwilym Owen, Bethel i'n hannerch.

CYFARFOD GWEDDI CHWIORYDD BYD-EANG – Cynhaliwyd y Cyfarfod Gweddi yn Hermon bnawn dydd Gwener, Mawrth 5 am ddau o'r gloch. Yr arweinydd oedd Miss Megan Humphreys, Cadnant a rhoddwyd yr Anerchiad ar y testun Pobl Dduw gan Mrs Nancy Roberts, Annedd Wen. Cymerwyd rhan gan y chwiorydd a ganlyn: Capel Mawr: Miss M.G. Roberts, Mrs M. Evans, Mrs J. Parry, Mrs N. Jones, Mrs M. Williams, Mrs N. Roberts. Pontrhythallt: Mrs A. Smith, Mrs J.C. Williams. Hermon: Miss Jenkins. Tanycoed: Mrs K. Williams, Mrs C. Vaughan Jones, Mrs Hughes. Bryngwyn: Mrs R. Thomas. Casglyddion: Mrs N. Pritchard a Mrs J. Parry. Cyfeilwyd gan Mrs N. Lovatt, Brwynog.

CYMDEITHAS CHWIORYDD CAPEL MAWR – Nos Iau, Mawrth 4, am 7 o'r gloch cafwyd noson goffi. Dechreuwyd trwy ddefosiwn gan y llywydd, Mrs Nancy Roberts, Annedd Wen. Anfonwyd ein cofion cynnes at chwiorydd oedd yn wael ac yn methu a bod yn bresennol a hefyd at amryw o chwiorydd a anfonodd arian a nwyddau tuag at wneud y noson mor llwyddiannus. Rhoddwyd y coffi gan Mrs M. Lewis, Madryn a Miss M. Evans, Y Fedwen a diolchwyd iddynt gan y llywydd. Gwahoddir ni y mis nesaf gan Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon Bach i gael noson yno.

CYMDEITHAS LENYDDOL CAPEL MAWR – Nos Fercher, Chwefror 24 am 7 o'r gloch cafwyd dadl ar y testun 'Mai'r felltith fwyaf i'r Gymdeithas heddiw yw'r Teledu'. O blaid 'roedd Mr Gwilym Owen, Glasgoed a Miss Meirwen G. Roberts, Ganllwyd ac yn erbyn 'roedd Mrs Iola Butler, Haddef a Mr Oswald Davies, Plas Gwyn. Llywyddwyd gan Mr Gwilym Bryn Eifion. Rhoddwyd y te gan Mrs J. Davies, Plas Gwyn a Mrs M. Jones, Ogwen. Diolchwyd gan Mr Emrys Owen, Hafan Elan.



CLWB BLODAU'R GRUG – 'Roedd arbenigrwydd i gyfarfod mis Mawrth, a daeth cynulliad rhagorol ynghyd. Ar ei ymadawiad i gymryd gofal o Blwyf Llanfaelog ym Môn, anrhegwyd y Llywydd, y Parch Gwynfor Williams, B.A. (un o sylfaenwyr y Clwb) â Radio ar gyfer ei fodur. Derbyniodd ei briod Hambwrdd arian bychan, rhoddwyd hefyd gydnabyddiaeth i fam y Rheithor. Talwyd gwrogaeth i'r Rheithor am ei gefnogaeth a'i wasanaeth clodwiw i'r Clwb, a dymunwyd pob bendith iddo ef a'i briod yn eu maes newydd. Cyflwynwyd yr anrheg i'r Parch Gwynfor Williams gan aelod hynaf y Clwb, Mr Richard Owen, Rhosrug, a oedd yn dathlu ei ben-blwydd yn 93 oed y diwrnod hwnnw, ac i Mrs Gwynfor Williams gan Mr Richard Owen. Mrs Myfi Roberts gyflwynodd yr anrheg i fam y Rheithor. Derbyniodd Mr Richard Owen gacen ben-blwydd yn rhodd gan Mrs C. Griffiths, Fron Ganol. Llawenydd oedd deall fod Mr a Mrs Richard Owen wedi derbyn teligram oddi wrth y Frenhines yn eu llongyfarch ar ddathlu 65 mlynedd o fywyd priodasol.

Dymunwyd adferiad buan i Mrs D. Owen, Bro Rhyddallt, sy'n yr ysbyty. Etholwyd y swyddogion canlynol am y flwyddyn sydd i ddod – Llywydd, Mr John Williams, Gweledfa; Is-lywydd, Mr Cledwyn Williams, Ty'r Ysgol; Ysgrifennydd, Mrs J. Parry, Morannedd; Is-ysgrifennydd, Miss M.G. Roberts, Ganllwyd; Trysorydd, Mrs M. Roberts, Plastirion Terrace; Is-drysorydd, Miss A.C. Jones, Glanllyn. Rhoddwyd y te gan Aelodau'r Pwyllgor. Talwyd y diolchiadau gan Mr Cledwyn Williams, Tŷ'r Ysgol, a Mrs N. Pritchard, Glanfa. Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar Ebrill 8.

GWELLHAD BUAN – Dymunir adferiad buan i Mrs Hannah Lewis, Fron Heli a Mr Owen Williams, Didfa.



*Cyflwyno rhoddion i'r Parch a Mrs W.O. Roberts mewn cyfarfod o Chwiorydd Capel Pontrhythallt.*

PLAID CYMRU – Cynhaliwyd Pwyllgor Merched o gangen Plaid Cymru ym Medw Gwynion yn ddiweddar i drefnu ar gyfer y Ffair Wanwyn ar Ebrill 22 yn yr Ysgol Gynradd. Mynediad fydd 20 ceiniog i oedolion a 10 ceiniog i blant gan gynnwys paned a bisgedi.

HAFAN ELAN – Mewn cyfarfod a gynhaliwyd ar Fawrth 4 etholwyd y canlynol yn swyddogion y pwyllgor am 1982. Cadeirydd, Mrs D. Jones, Y Warden. Rhif 18. Ysgrifennydd, Mr Emrys Owen, Rhif 9. Trysorydd, Mr Robert G. Jones, Rhif 13. Diolchwyd i Miss Mair Rowlands, Rhif 5 am ei gwaith diflino fel ysgrifennydd am 1981 ac yn gofidio nas gallai gario ymlaen gyda'r gwaith oherwydd amgylchiadau.

Diolchwyd i Selwyn a Megan Pritchard, Golygfa, Bryn Moelyn am rodd o gloc hardd i'r ganolfan er cof am y diweddar Mr Tom Pritchard, Rhif 4. Nos Iau, Mawrth 18, Cafwyd darlith ddiddorol ac addysgiadol ar hanes tref Caernarfon gan y parch Marcus Robinson , Llanberis. Cyflwynwyd y darlithydd gan Mr Emrys Owen, Rhif 9 a diolchwyd iddo gan Mrs M. Pritchard Rhif 4 a Mrs C. Williams, Rhif 19.

YSGOL FEITHRIN – Cynhaliwyd pwyllgor o'r Ysgol Feithrin yn ddiweddar yn absenoldeb Mrs Evans, Lloc y cadeirydd. Penodwyd Mrs Ann Owen, 26 Bro Rhythallt yn athrawes, Mrs Carys Parry, Gwynant, Ffordd yr Orsaf yn weinyddes a Mrs Meirwen Lloyd, Afallon, Bryn Moelyn, yn ysgrifennydd. Derbynnir plant yn ddwy a hanner oed i'r ysgol. Cafwyd adroddiad ariannol gan Mrs Iona Williams i hybu'r gronfa cynhelir noson goffi ar Fawrth 31 am 7.00 o'r gloch yn yr Ysgol Gynradd. Tocynnau yn 20 ceiniog, 10 ceiniog i blant.

CYMDEITHAS Y CHWIORYDD EGLWYS PONTRHYTHALLT – Darparwyd te arbennig yn festri Pontrhythallt brynhawn Iau, Mawrth 25 i anrhegu Mrs W.O. Roberts ar ymddeoliad y Parch W.O. Roberts.

Mrs Ceridwen Williams, Gwelfryn a lywyddai, a chyflwynwyd tocyn anrheg a thusw o flodau ar ran y chwiorydd gan y ddwy aelod hynaf sef Mrs M. Jones, Bronllt a Mrs C.E. Roberts, Hedsor Villar. Mynegwyd dymuniadau da gan amryw o'r chwiorydd. Diolchodd y Parch a Mrs W.O. Roberts am yr anrheg ac am gydweithrediad y chwiorydd yn ystod y cyfnod y bu'r Parchedig W.O. a Mrs Roberts yn bugeilio yn y Bont.

CYFARFOD GOLLWNG – Nos Fercher, Ebrill 7 am 7 o'r gloch yng Nghapel Mawr Llanrug Cyfarfod Gollwng y Parch William O. Roberts, gweinidog ar eglwysi Llanrug, Pontrhythallt, Tan-y-coed a Cheunant.



*Mrs Menna Williams yn cyflwyno siec o £50 i Mr Barry Greek, Canolfan Ieuenctid Segonitwm, mewn Noson Goffi a drefnwyd gan Mrs Meinir Williams a Mrs Joan Williams. Roedd y siec gan Barti Clychau'r Grug. Cyflwynwyd siec arall am £100 ganddynt i Blas Pengwaith, Llanberis.*



*Llun o Gôr Plant Llanrug 1936-37. Anfonwyd gan Mr Elwyn Jones, Vron, Beeoft Way, Dunstable trwy law Mr Emlyn Jones, Parc Isaf, Llanrug.*

# DEINIOLEN

Y CLWB SNWCER – Pencampwyr Snwcer Oedolion – Pencampwr – Gareth Grindley, Glanffrwd Terrace. 2. W.J. Williams, Rhydfadog. Pencampwyr Billiard. Pencampwr Gordon Davies, Hafod Olau, 2. Arthur Owen, New Street. Pencampwyr o dan 15 oed: Pencampwr Kevin John Jones, Dinorwig. Myrddin Morris, Pentre Helen.

DIOLCH – Dymuna Mr a Mrs Ernest Jones, Hafan, 7 North Road, ddiolch i bawb am eu caredigrwydd tuag at eu merch, Jennifer Ellen, tra bu o dan law-feddygaeth yn Ysbyty Eryri, Caernarfon. Diolch hefyd i'r llawfeddyg a'r nyrsus.

Dymuna Mr a Mrs Robert Rowlands, 12 Pentre Helen, ddiolch yn arbennig i'w teulu, ffrindiau a'r cymdogion am yr holl gardiau ac anrhegion, a blodau a dderbyniasant ar achlysur eu Priodas Ruddem. Diolch yn fawr iawn i bawb am eu caredigrwydd.

Dymuna Mr a Mrs B. Parry, Stryd Fawr ddiolch yn fawr iawn am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd eu merch fach Lynday Vaughan, tra bu yn yr ysbyty ym Mangor. Diolch yn fawr i bawb.

LLONGYFARCHIADAU i Nicola Vaughan Parry am ennill y radd gyntaf am farchogaeth ceffyl o'r enw Timber mewn cystadleuaeth marchogaeh i'r Anabl, wedi'i threfnu gan Mrs Axford o Fangor.



*Nicola a'i cheffyl 'Timber'.*

DIOLCH – Dymuna Eurwen a Deiniol Williams, 32 Hafod Olau ddiolch ar ran eu mab, Rheinallt i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau, rhoddion ac arian, a'r caredigrwydd a dderbyniodd tra bu yn Ysbyty Môn ac Arfon, Bangor ar ôl iddo gael damwain.

Diolch o galon i bawb.

Dymuna Mrs Betty Hughes, 28 Rhydfagod a'r teulu ddiolch yn gynnes i gyfeillion a chymdogion am bob gair o gydymdeimlad ac am y cardiau a'r llythyrau a dderbyniasant yn ystod eu profedigaeth. Diolch arbennig i Dr Marren ac i Staff Ysbyty Bryn Seiont yn ystod gwaeledd Mr Hughes a hefyd i'r Parch Trevor Lewis. Derbyniwyd a throsglwyddwyd yr arian i Ysbyty Bryn Seiont.

PLAID CYMRU – Cynhaliwyd cyfarfod o bwyllgor y gangen ar nos Fercher, Chwefror 24 yn Stafell y Seindorf. Penderfynwyd ysgrifennu i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gymru i gwyno am y pris isel a geir am y dŵr a allforir o Gymru a hefyd am y codiad yn nhrethi dŵr Cymru. Gyrrwyd llythyr hefyd o gefnogaeth i Wayne Williams.

Enillwyr Clwb Cant oedd Ionawr: rhif 108 – £12 Miss Eileen Williams, 38 Rhydfadog. Rhif 100: £8. – John Gerwyn Jones, 3 Tai Gweledfa. Chwefror: Rhif 35 – £12 Mr Idwal Jones, Tŷ Capel Libanus; Rhif 54, £8 – Mrs Dilys Hughes, Tyn-y-Weirglodd.

CLWB ELIDIR – Cafwyd pnawn hynod o ddifyr yn y clinic gan aelodau Clwb Elidir ar Fawrth 9 pan ddaeth Mrs J. Eirlys Williams, 3 Pentre Helen i ddweud hanes ei phlentyndod i'r aelodau. Talwyd diolch i Mrs Williams gan Lywydd y Clwb, sef Mrs C. Marren, Plas Eryr, a chan Mrs Megan Morris, Minffordd, Dinorwig a Mrs E. Williams, 2 Bwthyn. Rhoddwyd y te gan yr aelodau canlynol: Mrs Nancy Thomas, 62 Pentre Helen; Mrs R. Williams, 19 Hafod Olau; Mr J. Evans, 3 Hafod Olau a Mrs Mary Hughes, Rhydfadog. Enillwyd y raffl gan Mrs Dilys Jones, 9 Tai Cynfi. Rhoddwyd gwobr y raffl gan Mrs Jennie Evans, 3 Hafod Olau.

MERCHED Y WAWR – Cynhaliwyd noson o Swper a Chân i ddathlu Gŵyl ein Nawddsant Dewi yng Ngwesty Bron Eryri, Llanberis, nos Fawrth, Mawrth 2. Aeth llond bws er garwed y tywydd gan gynnwys aelodau o Sefydliad y Merched a ffrindiau i'r cyfarfod. Cafwyd swper o 'sglodion a chyw iâr. Wedi'r swper mwynhawyd noson o ganu i gyfeiliant gitar a'r piano gan ddau o aelodau o 'Barti'r Garnedd', Bethesda, Griff a Derek. Wrth y piano yr oedd Mrs Helen Lewis, Deiniolen. Cafwyd sgets gan dair aelod o Sefydliad y Merched, sef Mrs Marian Williams, Deiniol Road; Mrs Marian Wyn Williams, Tai Caradog a Mrs Beryl Hughes, Rhydfadog. Cafwyd stori fer gan Mrs Nancy Rowlands, Pentre Helen. Cafwyd noson ddifyr iawn yng nghwmni aelodau o Benisa'rwaun a Llanllyfni. Dymuna'r aelodau ddiolch yn gynnes iawn i ddwy o aelodau Merched y Wawr am drefnu noson mor ddifyr, sef Mrs Gwen Hughes, Rhiwen, Deiniolen a Mrs Medwen Griffith, Foel, Dinorwig. Cynhelir cyfarfod nesaf Merched y Wawr ar nos Lun, Ebrill 19 pryd y ceir noson 'Hawl i Holi'. Daw manylion eto ymhellach ymlaen.

UNO – Ar y Sul, Chwefror 28, cafwyd y pleser mawr yn Eglwys Ebenezer o gael cydymuno â dwy eglwys arall yn yr ardal, sef Capel Disgwylfa a Chapel Cefn-y-Waen. 'Roedd cefnogaeth dda iawn o'r dair eglwys. Pleser mawr fydd cael cydweithio â'r ddwy eglwys yma gan fawr obeithio y bydd brwdfrydedd mawr ymysg yr aelodau. Gwelwyd brwdfrydedd yn barod yn y Gymdeithas Lenyddol a gynhaliwyd ar Fawrth 14.

DERBYNIODD – Capel Ebeneser dri rhodd a fydd o werth mawr i'r Capel: lamp hardd gan blant y diweddar Mr a Mrs J.M. Williams, 70 Pentre Helen; stand o waith coed i ddal llyfr emynau neu Feibl gan Mr a Mrs Goronwy Jones, Llanfairpwll er cof am eu rheini, sef Mr a Mrs Elvan Jones, 1 View Terrace a dau blât casglu gan chwaer Mrs Evan Jones, Mrs Maggie Price, Manceinion. Derbynied y teuluoedd hyn oll ein diolch llwyraf am y rhoddion er cof am aelodau ffyddlon.

Derbynied y teuluoedd hyn oll ein diolch llwyraf am y rhoddion er cof am aelodau ffyddlon.

Y PENSIYNWYR – Nos Lun, Mawrth 1, gwahoddwyd Pensiynwyr yr ardal i Swper ac adloniant yn Ysgol Gwaun Gynfi. Cymerwyd rhan yn y Cyngerdd gan Mrs Maureen Evans, Marian Marzelous, Einir Lewis a Sharon Jones; Marian ac Eirlys Williams. Cyfeiliwyd gan Mrs Gwen Hughes. Dymuna'r pwyllgor ddiolch i bawb a gyfrannodd at y noson mewn gwaith a nwyddau. Carem hefyd ddiolch i Mrs W.J. Eames a Mr Eifion Williams am rwyddineb y trefniadau, a hefyd yn arbennig i Mrs Eurwen Roberts, Rhydfadog am ei gwaith gwirfoddol yn y gegin.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL UNDEBOL – Cynhaliwyd cyfarfod Ionawr 25 pryd y cafwyd noson ddiddorol wedi ei threfnu gan Mrs J. Eirlys Williams, 3 Pentre Helen a Mrs Jane Jones 3 New Street, Llywyddwyd gan y Parch E. Blainey. Ar Chwefror 22 cafwyd noson arbennig iawn gan bobl ifanc yr ardal. Trefnydd a llywydd y noson oedd Mr Gwyn Parry, Bro Dawel.

CYNGOR EGLWYSI – Cynhaliwyd cyfarfod mis Mawrth yng Nghapel Libanus pryd y cafwyd Seiat Holi. Aelodau'r Panel oedd Mrs Pat Larsen, Mrs M.C. Griffiths, Mr Brython Jones a Mr Donald Jones. Cadeirwyd y cyfarfod gan Mr Irfon Morris.

DIOLCH – Dymuna Mrs Ellen Williams, 2 Bwthyn ddiolch o galon i'r teulu a chyfeillion am bob dymuniad da a phob rhodd a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn Bedwar Ugain oed. Diolch yn fawr i bawb.

NEWYDDION Y SEINDORF – Anrhydedd mwya'r mis i'r Seindorf oedd cael bod yn y gêm fawr ym Mangor pan oedd Abertawe yn ymweld â'r Ddinas. Buont hefyd mewn cystadleuaeth ym Mhreston ar ddydd Sul, Mawrth 21 ond ni fuont yn llwyddiannus y tro hwn, er iddynt ddod yn wythfed allan o ddau ar hugain o fandiau. 'Doedd hynny ddim yn ddigon da iddynt fynd drwodd i'r bencampwriaeth yn Llundain fis Hydref.

Enillwyr Clwb 200 Mis Mawrth: £1. £25: rhif 130, Mr Edgar Jones, Y Becws; 2. £15 Rhif 170: Mr John Roberts, 22 Pentre Helen. 3. £5: Rhif 52. Mr Colin Williams, Stryd Fawr.

ER COF – Diolchir i gyfeillion bro'r Eco a gyfrannodd £50 tuag at y Cyfanswm o £403 a dderbyniwyd gan Eglwys Bethphage, Llaingoch, Caergybi, er cof am y diweddar Mr William Glyn Lewis.

DYDD GWEDDI BYD EANG Y CHWIORYDD – Cynhaliwyd y gwasanaeth eleni yn Ebeneser, nos Wener, Mawrth 6. Arweiniwyd y cyfarfod gan Mrs Beryl Griffiths, Eglwys Llandinorwig a thraddodwyd yr anerchiad gan Mrs Nan Jones, Ebeneser. Cymerwyd rhannau gan chwiorydd yn cynrychioli eglwysi Cefn-y-Waen, Ebeneser, Disgwylfa, Y Tabernacl, Libanus ac Eglwys Crist.

Y cyfeilydd oedd Miss Mair Rees Jones, Libanus.


ARHOLIADAU SIROL – Yn ddiweddar cynhaliwyd Arholiadau Ysgrifenedig Cymanfa Ddosbarth Deiniolen a'r Arholiad Sirol. Bu i'r canlynol sefyll yr arholiadau: Mared Wyn Sutherland; Della Jones; Tegid Roberts; Dylan Wyn Williams; Iwan G. Williams; Ceri Wyn Williams; Jeannie Williams; Eleri Llwyd Jones; Dyfrig Wyn Lewis; Sharon Griffiths a Sarah Roberts.

BRYN FÔN AR Y LÔN – Yn ddiweddar bu Teledu HTV yn Ysgol Gwaun Gynfi i ffilmio cyflwyno siec am £1,500 i Adran Addysg Arbennig Gwynedd. Cyfran oedd yr arian o £3,000 a gasglwyd wedi ymdrech Bryn Fôn ddiwedd 1981, yn rhedeg o Gaernarfon i Gaerfyrddin. Derbyniwyd y siec ar ran yr Adran Addysg Arbennig gan Mrs Ann Curwen. Cyflwynwyd y siec yn Ysgol Gwaen Gynfi oherwydd bod yr Adran yn bwriadu defnyddio'r arian i bwrcasu Teledu Cylch Cyfyng, sydd yn gymorth i blant â nam ar eu golwg i ddilyn cwrs arferol yn hytrach na mynd i ysgol arbennig. Y mae Dyfrig Wyn Lewis, Llys Myfyr yn defnyddio teledu cyffelyb yn yr Ysgol leol.

DIOLCH – Dymuna Mrs Jane Jones, 3 Heol Newydd, ddiolch i bawb a fu mor garedig wrth Jacqueline' tra bu o dan law-feddygaeth yn Ysbyty Llandudno. Diolch o galon i bawb.



LLUN – Dyma lun wedi cael ei roi gan Mrs Ceinwen Evans, Hafod Olau. Llun wedi ei dynnu yn 1955 o flaen Eglwys yng Nghonwy yw, pan gafodd Curad Mr Nicholson ei ordeinio gan y diweddar Esgob J.C. Jones, yn absenoldeb y Ficer Walter Jones, Eglwys Llandinorwig. Yn y darlun mae Mr John Parry, Foel Gron gynt; Mrs Maggie Evans, Rhwngddwyryd; Mrs Ann Thomas, Dinorwig; Mrs Llywelyn Jones, Ffridd; Mrs Irene Davies, Bontnewydd 'nawr; Y Curad, Mr Nicholson; Mrs Price, Wenallt, Stryd Fawr, Deiniolen; (Cryngae gynt); Mrs Mabel Jones, 9 View Terrace; Mrs Ceinwen Evans, 12 Hafod Olau, Mr Llywelyn Jones a Mrs Griffiths, Cae'r Rhedyn. Cafodd Mr Nicholson ei benodi'n offeiriad ym mhen y flwyddyn.



GWYBODAETH – Buasai Mr Alyn W. Evans, 55 Pentre Helen, yn hoffi gwybod tybed all rhywun enwi tair o'r chwiorydd yn y llun hwn. Mam Alyn yw'r drydedd o'r chwith. Hoffai wybod hefyd ym mhle y tynnwyd y llun a pha flwyddyn.

---

DIOLCH – Dymuna Mrs Emyr Pritchard ddiolch i drigolion Deiniolen a'r cylch am y rhoddion a'r cardiau a'r llythyrau a dderbyniodd, pan fu farw ei chwaer, Mrs J.B. Morris, 92 Pentre Helen, yn ddiweddar yn ysbyty Bryn Seiont. Maent yn rhy niferus i'w hateb yn unigol. Carai hefyd ddiolch i'r Seindorf ddydd yr angladd. Roedd gan ei chwaer feddwl mawr o Seindorf Deiniolen. Diolch hefyd i'r Parch Trefor Lewis, y gweinidog, a'r cyn-weinidog, y Parch Stanley Williams a'r Parch Eifion Wyn Williams, Botwnnog. Derbynied pawb diolch y teulu o golli mam a chwaer.



## DEINIOLEN *(parhad)*

**AR Y CHWITH –** Gwilym Rowlands, 12 Pentre Helen, enillydd dwy gystadleuaeth coginio dan nawdd Awdurdod Iechyd Gwynedd am y flwyddyn 1982-83. Yn y llun mae Gwilyn yn dal Tarian Ysbyty Môn ac Arfon a Thlws yr Wyddfa. Llongyfarchiadau gwresog iddo.

---

**ISOD:** Brenhines Karen sef Brenhines Carnifal Deiniolen gydag aelodau ei gosgordd. Cawsant eu dewis yn ystod Noson Goffi ac Arwerthiant yn Ysgol Gwaun Gynfi nos Wener diwethaf.



## MERCHED I AWSTRALIA

Rhwng 1787 ac 1852 trawsgludwyd 147,580 o garcharorion o Brydain i Awstralia; neu i'r rhannau hynny a elwid y pryd hwnnw yn New South Wales a Van Diemen's Land. 'Roedd bron i 25,000 ohonynt yn ferched, ac yr oedd 300 o'r rheini wedi eu hanfon yno o Gymru. Dyma rai o'r ffeithiau a nodir yn y llyfr – 'Welsh Convict Women' gan Deirdre Beddoe. Mae'r awdur yn dilyn hynt a helynt rhai o'r 300 hyn o ferched Cymru yn y llyfr: y rhesymau am y trawsgludo, eu bywyd yn y carchardai a'r llongau, a'r hyn a ddigwyddai iddynt ar ôl cyrraedd i Awstralia.

'Roedd y broses gyfreithiol yn syml iawn: gallai morwyn gael ei dal yn dwyn dilledyn oddi ar ei meistres; byddai'r heddlu'n ei herlid, ac yn y cwrt, os byddai'r ddedfryd yn ei herbyn, byddai'n derbyn cosb o 7 mlynedd, 14 mlynedd neu oes o drawsgludiad yn Awstralia. Ond doedd y drefniadaeth o drawsgludo unwaith y byddai'r ferch wedi ei dedfrydu ddim mor syml, a gallai orfod treulio cyfnodau hir mewn carchardai yn y wlad hon cyn y byddai llong yn barod i'w thrawsgludo ar draws y moroedd.

Erbyn blynyddoedd olaf y trawsgludo 'roedd mwy o siawns i ferch gael ei hanfon i Awstralia na dyn, a hynny oherwydd fod prinder merched yno! Yr oedd yn bolisi gan y llywodraeth i drawsgludo pob merch iach dan 45 mlwydd oed. Felly, nid cosb er mwyn diwygio cymeriad y troseddwr a dderbyniai'r ferch, ond cosb er mwyn cadw cydbwysedd y rhyw yn Awstralia!

Un ar bymtheg yn unig o ferched a drawsgludwyd o'r hen Sir Gaernarfon, ond ni wyddom a oeddynt i gyd yn enedigol o'r sir. 'Roedd wyth ohonynt wedi eu dedfrydu i Awstralia am weddill eu hoes. Anfonwyd y gyntaf ohonynt – Ann Jones – yn 1812, a'r olaf – Mary Jones – yn 1850.

O ddarllen y llyfr, yr hyn sy'n synnu rhywun yw pa mor greulon mewn gwirionedd oedd y sustem a fodolai. Priodol iawn yw'r dyfyniad o eiddo Oscar Wilde i gloi'r hanes am y cyfnod trist hwn: 'nid troseddau'r "bobl ddrwg" sy'n ein dychryn a'n harswydo, ond cosb y "bobl dda" iddynt am eu cyflawni.'

## BRYNREFAIL

CLWB PEDWARUGAIN – Enillwyr mis Chwefror: 5 – 1. Eurwyn Williams, 2. Elwyn Jones, 3. Megan Jones. 12 – 1. Wil Hughes, 2. Pat Jones, 3. Alwyn Roberts. 19 – 1. Bertie Roberts, 2. O.J. Williams, 3. Glenys Jones. 26 – 1. Aled Green, 2. Mrs Hasson, 3. Helen Jones.

SEFYDLIAD Y MERCHED – Cafwyd noson ddiddorol iawn yng nghwmni Mrs Dorothy Jones, Cwm-y-glo yn ei swydd fel trefnydd rhanbarthol y mudiad Barnardo. Cafwyd sgwrs a ffilmiau am y gwaith rhagorol a wneir gan y mudiad.

Rhoddwyd y te gan Carol Houston a Helen Jones. Rhoddwyd anrheg y mis gan Rhian Jones ac fe'i henillwyd gan Sheila Williams.

CLWB Y MAMAU – Yng nghyfarfod mis Mawrth cafwyd noson yn trafod materion cyfoes trwy gyfrwng roi cwestiynau i banel o aelodau. Trefnwyd y noson gan Moira Ellis. Rhoddwyd y te gan Margaret Wardle a Jill Harris. Rhoddwyd anrheg y mis gan Mrs G. Hughes ac fe'i henillwyd gan Carol Houston.

EGLWYS BRESBYTERAIDD CYMRU – Cyfarfod Pregethu Blynyddol ddydd Gwener y Groglith. Pregethwr gwadd y Parch John Evans, Morfa Nefyn. Oedfaon 10..0, 2.00 a 6.00. Gweinyddir y Sacrament o Swper yr Arglwydd yn Oedfa'r Prynhawn. Croeso cynnes i bawb.

## PAFILIWN NEWYDD YR EISTEDDFOD

Cynnyrch y ffyrm Almaenig Höcker yw Pafiliwn newydd yr Eisteddfod, ac fe'i ddisgrifir ganddynt hwy fel 'neuadd babell'. Ond efallai mae braidd yn gamarweiniol yw'r gair 'pabell' gan fod i'r adeilad fframwaith aliwminiwm. Gellir ei adeiladu'n syml a chyflym, ac ni bydd angen yr un sgriw i'w roi at ei gilydd ar y safle, dim ond plygiau syml i gysylltu un darn wrth y llall. Gwneir y gwaith i gyd ar y llawr ac felly nid oes angen i neb beryglu'i fywyd wrth weithio ar y to.

Deunydd wedi ei gryfhau â PVC fydd y to a'r ochrau i gyd. Oddi fewn fe addurnir y to â deunydd lliw hufen, ac ar hyd yr ochrau ceir paneli o liw hufen a brown bob yn ail. Math arbennig o wydr ffeibr fydd y deunydd yma fydd yn gwrthsefyll gwres neu dân.

Maint y Pafiliwn fydd 70 medr o hyd a 50 medr o led. Bydd iddo lawr coed cryf wedi ei osod ar fframwaith o ddur ac aliwminiwm. Dros y drysau i gyd bydd canopïau i gysgodi pobl wrth fynd i mewn. Bydd y llwyfan yn union yr un fath ag yn yr hen Bafiliwn a bydd y cyfleusterau i wŷr y teledu a'r radio hefyd yr un peth. Fe fydd yna seddau i 4772 o bobl.

Fe fydd y Pafiliwn yn cael ei ddefnyddio mewn arddangosfa yn Birmingham ym mis Ebridd a dyma fydd y tro cyntaf i adeilad o'r math yma gael ei weld ym Mhrydain. O Birmingham fe ddaw i Abertawe, a bwriedir cychwyn ei adeiladu gan gwmni Owen Brown & Son (Tents) Ltd. o Loughborough ar Fai 24 a'i orffen ar Fehefin 14. Ceir digon o amser felly i ymarfer ar y llwyfan gogyfer â'r cyngherddau.

Eleni ni bydd y Babell Lên a'r Theatr Fach ar y Maes fel arfer, ond fe ddefnyddir adeiladau Coleg y Brifysgol ar eu cyfer. Am y rheswm yma fe leolir y Pafiliwn nid ar y tir uchel ym Mharc Singleton fel yn 1964 ond yn is i lawr yn ymyl adeiladau'r Coleg. Yn adran Wyddoniaeth Gymhwysol y lleolir y Babell Lên, Pabell y Cymdeithasau, yr Arddangosfa Wyddoniaeth a Thechnoleg a'r Arddangosfa Lên. Bydd y Theatr Fach yn ymgartrefu yn Theatr y Coleg, tra cynhelir yr Arddangosfa Gelf a Chrefft yn Abaty Singleton gerllaw. Cynhelir amryw ragbrofion ac arddangosfeydd eraill hefyd mewn adeiladau eraill ar y Campws.

Mae'r hostelau lle bydd llawer o ymwelwyr yn lletyw o fewn ergyd carreg i'r Maes a phentre Hendrefoelan prin filltir a hanner i ffwrdd. Bydd digon o le ar gyfer parcio ceir hefyd yn ymyl y Maes.

## CWYNO!

Derbyniodd un o'r golygyddion alwad ar y ffôn yn fuan ar ôl i'r rhifyn diwethaf o'r 'Eco' ddod o'r wasg. 'Roedd y person yn cwyno'n arw am nad oedd stori am berthynas iddo wedi ei gynnwys yn y papur.

"Welwch chi le i'r stori yn y papur?" holodd y golygydd.

"Na wela' "

"Dyna pam nad yw'r stori i mewn felly." oedd yr ateb.


**GWILYM JONES**
**Monumental Works**
**LLANRUG**
**FFÔN CAERNARFON 2898**

**COFADEILWAITH O BOB MATH**
**MEWN LLECHI A GWENITHFAEN**
**GAN GREFFTWYR LLEOL**


## TAI AR OSOD

Gwahoddir ceisiadau am denantiaeth y canlynol:

1. Tŷ 3 llofft yn Nantlle. 2 ystafell fyw a chegin i lawr. Gardd a chwt yn y cefn. Cynnig cyntaf i deulu â phlant.

2. Tŷ 2 lofft ym Mhenygroes. Stafell fyw a chegin i lawr. Gardd gefn.

Gyrrwch am ffurflen gais, neu ffoniwch ar unwaith, i **Gymdeithas Tai Gwynedd, Penygroes (730), Caernarfon.**

# 06190 – O CHWECH I NAW DEG!



**Tudalen i'r plant: hen ac ifanc gan DYFRIN Y DEWIN**

CHWEDLAU MORLADRON YR YNYSOEDD PELL

## Y Dywysoges Hunanol

Un tro, 'roedd tywysoges brydferth iawn yn byw mewn castell ar un o ynysoedd y Môr Pell. 'Roedd ei thad, y brenin, eisiau iddi briodi, ac un diwrnod daeth tywysog yno i geisio ei llaw mewn priodas. Nid oedd y dywysoges yn siŵr iawn os oedd am ei briodi, ond gofynnodd iddo ddod â llong llong o aur iddi yn anrheg o fewn blwyddyn.

"O'r gorau", atebodd y tywysog. "'Does dim aur yn fy ngwlad i, ond af i chwilio am aur i bob rhan o'r byd os bydd raid i mi."

A hwyliodd y tywysog i ffwrdd i chwilio am aur. Bu'n chwilio am fisoedd, ond ychydig iawn o aur oedd ganddo. O'r diwedd, penderfynodd werthu un o'i longau er mwyn cael aur, ond hyd yn oed wedyn, 'doedd ganddo ddim digon. Bu'n rhaid iddo werthu ei gastell a'i diroedd nes cael digon o aur i lenwi llong. Yna, hwyliodd yn ôl at y dywysoges.

"Mae'r flwyddyn ar ben," meddai, "a dyma lond llong o aur yn anrheg i ti. Wnei di fy mhriodi i rwan?"

"Gwnad, fe wna'i dy briodi di," atebodd y dywysoges "ond yn gyntaf, rhaid i ti wneud rhywbeth arall i mi."

"Unrhyw beth," atebodd y tywysog.

"Ar un o'r ynysoedd hyn mae anghenfil ffyrnig yn byw mewn ogof. Mae wedi lladd llawer o bobl. Rhaid i ti ladd yr anghenfil cyn y byddaf yn barod i'th briodi."

Hwyliodd y tywysog i ffwrdd i chwilio am yr anghenfil. 'Roedd un o'r hen forwyr ar ei long yn gwybod lle 'roedd ogof yr anghenfil, ond ceisiodd ei berswadio i beidio â mynd yno.

"Merch hunanol iawn yw'r dywysoges," meddai'r hen forwr; "byddai'n well i ti briodi rhywun arall."

"Ond mae'r dywysoges yn hardd iawn," meddai'r tywysog, "mae'n rhaid i mi ladd yr anghenfil iddi."

Daeth y llong tuag at ogof yr anghenfil. Aeth y tywysog allan ar y creigiau a galw ar yr anghenfil. Pan ddaeth yr anghenfil allan o'r ogof, dychrynodd y tywysog. Nid oedd erioed wedi gweld anghenfil mor fawr ac mor hyll o'r blaen. Bu'r tywysog a'r anghenfil yn ymladd am ddiwrnod cyfan, ond 'doedd yr un o'r ddau yn ennill. Aeth yr ymladd ymlaen am dri niwrnod ac o'r diwedd, lladdodd y tywysog yr anghenfil gyda'i gleddyf.

Pan ddaeth y llong yn ôl i gastell y dywysoges, 'roedd y tywysog yn rhy wael i gerdded i'w gweld, a bu'n rhaid i'r hen forwr fynd yn ei le. Eglurodd i'r dywysoges fel y cafodd yr anghenfil ei ladd, ond fod y tywysog yn rhy wael i ddod i'w gweld.

"Rhaid iddo ddod i'm gweld ar ôl iddo wella," meddai'r dywysoges.

Bu'r tywysog yn wael am hir iawn, ond ni ddaeth y dywysoges i edrych amdano o gwbl. O'r diwedd, pan oedd y tywysog yn ddigon cryf, cerddodd i fyny i gastell y dywysoges a gofynnodd iddi unwaith eto a wnâi hi ei briodi.

"Gwnaf, wrth gwrs," meddai'r dywysoges, "ond yn gyntaf, rhaid i ti wneud un peth arall imi. Yna, fe wnaf dy briodi."

"Gwnaf, wrth gwrs," meddai'r dywysoges, "ond yn gyntaf, rhaid i ti wneud un peth arall i mi. Yna, fe wnaf dy briodi."

"Unrhyw beth," meddai'r tywysog.

"Rydw i eisiau'r lleuad," meddai'r dywysoges.

"Tyrd gyda mi at y môr," meddai'r tywysog.

Aeth y ddau ohonynt i lawr i lan y môr. Yr oedd yn dechrau nosi, ac yr oedd y lleuad i'w weld yn disgleirio yn y dŵr.

"Dyna'r lleuad," meddai'r tywysog, "dos i'w nôl dy hun."


Gwthiodd y tywysog y dywysoges i mewn i'r dŵr. Yr oedd yn wlyb i gyd, a dechreuodd wylo.

"O! rwy'n wlyb. 'Dos a mi'n ôl i'r castell," meddai "ac fe'th briodaf ar unwaith!"

"Na," meddai'r tywysog. "Rwyt ti'n llawer rhy hunanol. 'Roedd arnat ti eisiau llong yn llawn o aur, ac fe'i cefaist. Roedd arnat ti eisiau i mi ladd yr anghenfil, ac fe wnes. 'Roedd arnat ti eisiau'r lleuad. Wel, mae'r lleuad yn dal i nofio'n y dŵr. Mae croeso i ti ei gael. Ond mae un peth na chei di byth. Chei di byth mohonof i'n ŵr!"

Cododd y tywysog a cherdded yn ôl i'w long, a hwylio'n ôl i'w wlad ei hun, gan adael y dywysoges hunanol yn wylo ar lan y môr.

## TIPYN O DRWYN!




Trwynau pa anifeiliaid yw'r rhain?

## HANES Y GLÔB

Erbyn heddiw mae pawb yn derbyn yn ganiataol fod y byd yn grwn, ond pan honnodd Pythagoras hynny tua 2,500 o flynyddoedd yn ôl, 'roedd pobl yn wfftio am ei syniadau. Tua 200 C.C. gallodd Erathosthenes, y mathemategydd o Alexandria amcangyfrif maint y byd o astudio uchder yr haul uwchben y gorwel mewn dau le ar yr un lledred. Ond ar wahân i'r syniadau cynnar hyn, 'roedd maint a ffurf y byd yn dibynnu i raddau helaeth ar ddyfalu.

Y model cyntaf y gwyddom amdano o'r ddaear oedd un a wnaethpwyd gan y Groegwr Crates tua 150 C.C. Dangosai bedwar cyfandir wedi eu gwahanu gan foroedd. Wrth gwrs, ni wyddai pobl y cyfnod hwnnw am fodolaeth Awstralia nac America, ond credid fod yn rhaid cael pedwar cyfandir er mwyn cadw cydbwysedd y byd!

Archwilwyr yr unfed ganrif ar bymtheg a fu'n gyfrifol am ledaenu gwybodaeth ynglŷn â maint a ffurf y byd; pobl fel Columbus, Vespucci, da Gama, Magellan a Drake. Ond hyd yn oed wedyn, gwrthodai'r eglwys yn Ewrop â derbyn y syniadau newydd hyn am y byd, ac mor ddiweddar â 1603, cafodd Giordano Bruno ei ladd yn yr Eidal am honni fod y byd yn grwn.

O ganlyniad i'r mordeithiau hyn i bedwar ban y byd, cynyddodd y galw am GLÔB i ddangos yn gywir, maint a ffurf y ddaear. 'Roedd y rhain yn anodd i'w gwneud ac i'w cynllunio, ac yn costio'n ddrud iawn. Yn yr ail ganrif ar bymtheg, gallai Coronelli, gwneuthurwr globiau o Venice, hawlio tâl am oes am gynllunio dwy glôb yn unig! Mae'r rhain yn parhau mewn bodolaeth, ac ymysg y globiau hynaf yn y byd.

Bellach, mae glôb yn gelficyn cyffredin iawn ymhob ysgol, a gellir astudio a deall maint a ffurf y byd yn llawer haws na'r mathemategwyr cynnar rheini gannoedd o flynyddoedd yn ôl.




BECWS DEINIOLEN
(D.E. & R.P. JONES)
Ffôn: LLANBERIS 870232

BARA FFRES A THEISENNAU BLASUS

Hefyd gwerthwyr CALOR GAS

SETIAU TELEDU LLIW AIL LAW
MEWN CYFLWR RHAGOROL
SIOP DELEDU
T. CEPAS
Ffordd yr Orsaf
LLANRUG
Ffôn: Llanberis 870205

# YR ARTIST PRYFOCLYD


**'Doedd Maurits Cornelis Escher ddim yn hoff iawn o fathemateg yn yr ysgol, nac yn dda iawn am wneud symiau chwaith. Erbyn heddiw, mae ei luniau'n synnu mathemategwyr a gwyddonwyr, ac y mae prisiau uchel iawn yn cael eu talu am ei brintiau gwreiddiol.**

Ganed Escher yn yr Iseldiroedd yn 1898, ac am yr hanner can mlynedd cyntaf o'i fywyd, ceisiodd ennill ei fywoliaeth yn gwneud pob math o luniau a phatrymau. Gwerthai lawer o'i brintiau am tua £5 i geisio cadw dau ben llinyn ynghyd; a bu'n cynllunio stampiau post, arian papur a hyd yn oed batrymau papur wal. Ond mewn cyfnod o tua 30 mlynedd, nid oedd ei enillion fawr mwy na £2,000 ac yr oedd yn rhaid iddo ddibynnu ar ei dad am ei gynhaliaeth.


Yna, ar ddechrau'r 1950'au, dechreuodd printiau o'i eiddo werthu fel tân gwyllt. Daeth yn ddyn cyfoethog dros nos. Prynwyr o'r America a fu'n gyfrifol am y 'mynd' hwn ar ei brintiau. Yn fuan iawn, 'roedd ei batrymau'n cael eu defnyddio ar grysau-T, ar bosteri ac ar recordiau. Yn raddol, lledodd ei boblogrwydd ar draws yr Iwerydd i Ewrob ac i Brydain. Ar ddiwedd 1980, gwerthwyd un o'i brintiau enwocaf – 'Dydd a Nos' – am £3,000 yn Llundain.

Cyfaddefodd Escher mai tynnu lluniau i bryfocio, i dynnu coes ac i brocio'r meddwl oedd ei fwriad. Bellach, defnyddiwyd rhai ohonynt i esbonio rheolau cymhleth mathemateg, a elwir yn 'stereometrics'.

Bu Escher farw yn 1972, ond mae ei ddarluniau'n parhau'n fyw, ac yn parhau i greu dadlau ynglŷn â'r amhosibl. Sylwch ar rai o'i batrymau a phenderfynwch chwi a yw ei ddarluniau y tu hwnt i bob posibilrwydd.



*Un rhimyn diddiwedd sy'n ffurfio pen y gŵr a'r wraig yn y llun hwn o eiddo Escher.*



*Belvedere' — un o luniau enwocaf Escher. Sylwch fel y mae'r pileri ar y llawr cyntaf yn cynnal tu blaen a thu cefn y llawr uchaf ar yr un pryd. Mae troed yr ysgol o'r tu mewn i'r tŵr, ond mae ei phen o'r tu allan.*


## MOROEDD Y BYD AR GOLL

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ch | O | L | A | R | O | C | P |
| Dd | A | V | E | D | U | T | V |
| C | A | N | O | L | D | I | R |
| J | A | P | A | N | W | M | Ch |
| W | T | A | W | E | L | O | W |
| I | B | I | R | A | C | R | R |
| V | N | Y | L | E | M | K | A |
| U | Dd | A | I | D | N | I | M |

**Mae 14 o wahanol foroedd y byd wedi eu cuddio'n y sgwâr. Dyma'r enwau: Iwerydd, Canoldir, Caribî, Coch, Udd, Tawel, Timor, Melyn, Java, Coral, Japan, India, De, Marw.**

**Mae un o'r moroedd hyn heb fod yn fôr, ond yn llyn. Pa un?**

# LLUN I'W LIWIO



**Mae gweddill y clown ar goll. Fedrwch chwi ei orffen a'i liwio?**

# LLANBERIS

DIOLCHIADAU – Dymuna Clara Roberts, Anfield, Stryd Fawr ddiolch i'w pherthnasau, cymdogion a chyfeillion am y blodau, rhoddion a'r llu cardiau a dderbyniodd yn ystod ei harhosiad yn ysbyty Môn ac Arfon yn ddiweddar. Diolch hefyd i staff 'Lower Surgical Ward' a'r Eryri.

Dymuna Mrs Betty Williams, 4 Coed y Glyn ddiolch o galon i'w theulu, chymdogion a'i ffrindiau am y llu anrhegion, cardiau a dymuniadau da a dderbyniodd tra fu yn derbyn triniaeth lawfeddygol. Diolch i'r staff i gyd yn ward U.S. Ysbyty Môn ac Arfon, y meddyg lleol a'i staff.

LLWYDDIANT I FRIGÂD SANT IOAN – Mae'r 'Cadets' wedi bod yn weithgar iawn ar hyd y gaeaf ac mae'r arholiadau wedi dangos llwyddiant mawr. Mae'r diolch am y llwyddiant nid yn unig i'r plant eu hunain, ond i'r oedolion sydd yn eu dysgu sef Nyrs Glenys Parry gyda'r genethod a Superintendent Hugh Owen ac E.M. Lamb y Swyddog Adran. Dyma'r rhestr: **Y Genethod:** Cheryl Edwards, Ceri Lynne Parry, Jane Parry, Lisa Jaen Ruskin, Nia Williams. **Y Bechgyn:** Alan Ellis, Andrew Griffiths, Gareth Guck, David Griffiths, David Ian Edwards, Dewi Harris, Hugh Harris, Mathew Griffiths, Gareth Wyn Owen, Nigel Ellis, Karl Roberts, Dylan Roberts, Terry Saynor, Colin Saynor, Derfel Owen Williams. **Y Bechgyn Dosbarth Cyntaf:** Llifon Foulkes, Eifion Griffiths, Darel Griffiths, Neil Owen, Dylan Parry, Trystan Thomas, Geraint Thomas, Euron Thomas, Marc Williams, Cai Williams.

PEN BLWYDD HAPUS i Mr Llew Batten yn 80 oed. Brodor o Gilfynydd yw Mr Batten a daeth ef a'i briod i Lanberis yn 1939. Gwnaeth Llew a Peg lu o ffrindiau yn yr ardal a chyfrannodd y ddau yn helaeth i'r gymdeithas. Defnyddiodd y ddau hefyd eu talentau cerddorol a buont yn aelodau selog o'r Côr Mawr a Pharti Eilian, un o'r partïon Noson Lawen mwyaf poblogaidd y Gogledd. Tra bu'r iechyd yn caniatáu bu Mr a Mrs Batten yn aelodau ffyddlon iawn yn eglwys Sant Padarn. Dymuna Llew ddiolch i'w lu cyfeillion a'i gymdogion am eu dymuniadau da, eu cardiau a'u hanrhegion.

LLWYDDIANT – Llongyfarchiadau i Gwilym, mab Mr a Mrs W.T. Roberts, 15 Maes Padarn ar gael ei ddewis yn efrydydd gorau'r flwyddyn yn ysbyty Whitchurch, Caerdydd. Ei fwriad yw bod yn ffisiotherapydd.

CYDYMDEIMLAD – Estynnir cydymdeimlad â Mr Gwilym Owen, Stryd Yankee o golli ei chwaer Enid yn yr ysbyty yng Nghaernarfon. Roedd yn 69 oed, ac wedi byw hyd yn ddiweddar iawn yn Tegfan, Llanrug lle y symudodd y teulu o Stryd Siarlot, Llanberis.

YN GWELLA – Da iawn deall fod y rhai a ganlyn yn gwella ar ôl triniaeth yn yr ysbyty: Mrs Myfanwy Davies, Stryd Newton, Mrs Nancy 22 Maes Padarn, priod Mr Glyn Williams, Manon merch fach Mr a Mrs Iwan Lloyd Williams, hithau wedi dod adre ar ôl triniaeth i'w llygaid yn Ysbyty Bwthyn, Caernarfon, hefyd Nicola merch Mr a Mrs J. Prydderch, Bronallt, Teras Olgra a Mrs Yvonne Hughes, Teras yr Afon, Stryd Goodman.

DYDD GWEDDI'R MERCHED – Yng Nghapel Gorffwysfa, ddydd Gwener, Mawrth 12 cynhaliwyd Cyfarfod Gweddi'r Merched. Arweiniwyd gan Mrs Eurwyn Jones, Nant Padarn a Mrs D. Bayliss, Gorffwysfa a chymerwyd rhan yn y gwasanaeth gan Mrs Arthur Jones, Eglwys Sant Padarn, Mrs Eluned Mai Jones, Gorffwysfa, Mrs Nansi Jones a Mrs Lowri Davies, Jerusalem, Mrs J. Lloyd Jones, Capel Coch a Mrs Carys Hughes, Preswylfa, Mrs J. Maud Jones, Capel Coch, Mrs Dilys Owen, Nant Padarn. Cafwyd anerchiad ddifyr iawn gan Mrs Gwynfor Williams ar y testun 'Pobl Dduw'. Yr organyddes oedd Mrs Beti Rees Evans, a threfnwyd y cyfarfod gan Mrs Nettie Jones a Mrs Enid Mabel Williams.

YN YR YSBYTY – Dymunir adferiad llwyr yn fuan i'r cyfeillion yma sydd yn yr ysbyty: Mr Alun Roberts, Stryd y Faenol. Hefyd yn Ysbyty Caerdydd mae Jean Roberts, 91 Maes Padarn, (merch y diweddar Mr a Mrs B. Owen).

UNDEB Y MAMAU – Mawrth 2 cynhaliwyd cyfarfod o'r uchod dan lywyddiaeth y Canon Alun Jones. Mwynhawyd anerchiad gan y Parch L.O. Moorhouse ar 'Merched y Beibl'. Diolchwyd iddo gan Miss Catherine Gillespie a Mrs Buddug Hughes. Darparwyd lluniaeth gan Mrs Pierce Jones, Mrs Allen, Mrs Phillips, Mrs Eddie Jones a Mrs Kathleen Williams.

CLWB YR HENOED – Bu 121 o aelodau'r clwb yn mwynhau cinio yng Ngwesty'r Fictoria i ddathlu Gŵyl Dewi Sant. Croesawyd yr aelodau gan Mrs M. Bryn Hughes, Llywydd y Pwyllgor a chyfeiriodd at yr aelodau hynny oedd yn methu bod yn bresennol oherwydd afiechyd.

Siaradodd y Canon Alun Jones gan ddiolch i aelodau'r Pwyllgor am eu gweithgarwch drwy'r flwyddyn i godi arian er sicrhau rhyw adloniant o'r math yma i'r pensiynwyr.

Cyfeiriodd hefyd at Mr Eurwyn Jones, Delfryn sydd yn barod bob blwyddyn i archwilio'r cyfrifon.

Diolchwyd ar ran y pensiynwyr gan Mrs Roberts, Newton Hall a Mr Griffith Owen, 59 Maes Padarn.

Wedi'r lluniaeth diddanwyd y pensiynwyr gan barti o blant o Ysgol Dolbadarn dan arweiniad Mr John Hugh Hughes, y prifathro a Mrs Eirlys Pierce athrawes. Diolchwyd iddynt ar ran y pwyllgor gan y Parch Marcus Robinson. Mawr yw diolch y pwyllgor i'r cyfeillion hynny fu'n cario'r pensiynwyr yn ôl a blaen o'r gwesty.

Y BLAID LAFUR – Yng nghyfarfod blynyddol y Blaid Lafur etholwyd y rhai canlynol yn swyddogion am y flwyddyn: Llywydd, Y Cynghorydd Francis Jones, Is-lywydd, Mr Ken Jones, Trysorydd, Mr Llew Roberts, Ysgrifenyddes, Mrs Vicky Norton, Tŷ Glasgow, Y Stryd Fawr. Yn ei araith dywedodd y llywydd fod aelodaeth y blaid ar gynnydd. Bwriedir trefnu cyfarfod cyhoeddus yn y Ganolfan ar Ebrill 22 i gwrdd â ieuenctid yr ardal sydd yn ddi-waith.

I DDE AFFRICA – Rai dyddiau'n ôl gadawodd Trefor Evans, Dol Elidir yr ardal i ymgartrefu â'i fodryb, chwaer i'w fam, yn Ne Affrica. Gadawodd gyda dymuniadau gorau'r oll o'r ardalwyr.

Y RAS NOFIO – Os y cofiwch cafwyd gwir fwynhad, er bod y tywydd yn anffafriol, wrth wylio y Ras Nofio ar Lyn Padarn. Bwriada Mr Bryn Parry, 76 Y Stryd Fawr drefnu ras gyffelyb eto eleni ond amhosibl yw hyn heb gael nifer o bobl i gynorthwyo i drefnu a darpau ar gyfer y diwrnod. Taer erfynir am i bawb sydd â diddordeb ymgynghori â Mr Bryn Parry cyn gynted ag sydd modd.

MARWOLAETHAU

Evan Oliver Roberts – Yn Ysbyty Môn ac Arfon, Bangor, Mawrth 10, bu farw Mr Evan Oliver Roberts, 2 Minafon yn 65 oed. Roedd yn gymeriad adnabyddus iawn yn dawel a dymunol. Gwasanaethodd gyda'r siop Co-operative yn Llanberis am 34 mlynedd. Bu'n aelod ffyddlon iawn yng Nghapel Coch. Claddwyd ei weddillion ym mynwent Nant Peris gyda'r Parchn Marcus Robinson a Gwynfor Williams yn gwasanaethu. Cydymdeimlir â Miss May A. Roberts, ei chwaer, y Parch John S. Roberts, ei frawd, a'r teulu oll yn eu profedigaeth.

Mrs Emily Jones – Yn 81 oed, Mawrth 7, bu farw Mrs Emily Jones, 5 Maes Padarn. Bregus iawn fu ei hiechyd ers blynyddoedd bellach, ac ychydig a symudai allan o'i chartref. Hanai o un o deuluoedd hynaf yr ardal, yn eglwyswyr pybyr. Bu'n gantores o fri yn ei blynyddoedd cynnar, a mawr fu ei chefnogaeth i Eglwys Sant Padarn. Fel ei thad a'i ewythrod bu'n cefnogi 'Y Band' ar hyd y blynyddoedd, ac roedd yn aelod ffyddlon o Undeb y Mamau. Wedi'r gwasanaeth angladdol yn Eglwys Sant Padarn, Mawrth 10, gyda'r Canon Alun Jones yn gwasanaethu a Mr Huxley Thomas wrth yr organ, dilynwyd gyda gwasanaeth yn yr Amlosgfa, Bangor. Estynnir y cydymdeimlad llwyraf â'i phriod Ben Jones, ei merch a'i dau fab, a'r teuluoedd a'i dwy chwaer, Mrs C. Jones a Miss Bessie Williams a'r hunig frawd T.H. Williams.

Y PRYDAU PAROD (Meals on Wheels) – Ar ôl disgwyl dwy flynedd am y Prydau Parod daeth gwybodaeth ar ddiwedd Chwefror fod y prydau i ddechrau Mawrth 1af. Trefnwyd darparu'r bwyd gan y Gwasanaeth Cymdeithasol, a phenderfynwyd ganddynt hefyd pwy oedd yn deilwng o dderbyn y prydau parod yma ddwywaith yr wythnos. Trefnwyd i ddod â'r prydau i fyny i Lanberis o Fangor a chyfrifoldeb yr ardal oedd cludo'r cyfan o dŷ i dŷ. Ymgymerodd Pwyllgor yr Henoed i gludo'r bwyd, ond roedd yn rhaid cael cerbydau i fynd o gwmpas hyd yn oed cyn belled â Nant Peris. Nid penderfyniad Pwyllgor yr Henoed, Llanberis oedd dewis y rhai oedd i dderbyn y prydau.

Peidied neb â dweud fod cymwynasgarwch a charedigrwydd wedi diflannu o'n mysg. Na, mae hyn yn bell o fod yn ffaith. Ymhen dau ddiwrnod derbyniodd Mrs Mira Bryn Hughes, Llywydd y Pwyllgor Henoed enwau 16 o'r ardalwyr a oedd yn barod gyda'u ceir i fynd o amgylch yr ardal. Dyma Gristionogaeth ymarferol – pobl yn barod i helpu eraill mewn byd mor brysur a dihidio, a mawr yw ein gwerthfawrogiad i'r cyfeillion hyn am eu cyfraniad. Dyma enwau: Mrs Morfudd Jones, Erw'r Coed; Mrs Enid Jones, Delfryn; Mr Eurwyn Jones, Delfryn; Mrs Doris Hughes, Beech Bank; Mrs Avril Pritchard, Llys Arthur; Miss Catherine Gillespie, Bod Alwyn; Mrs R.H. Owen, Wyddfyd; Mrs Gartside, Compton House; Mr Evan Wilson Hughes; Mrs John Hugh Hughes, Tan y Clogwyn; Mr Hugh Owen, Maes Eilian; Bert Thomas, Y.H., Stryd Newton; Mr Tom Maxwell, Argoed, Stryd Warden; Mr Len Davies, Brook House; Y Parch Marcus Robinson; Mr William John Roberts; Meira Bryn Hughes. Miss Ann Jones, Minafon Terrace yw'r trefnydd a'r ysgrifennydd lleol.

Y CWMNI DRAMA – Cafodd y Cwmni Drama groeso mawr yn perfformio yn Nhywyn nos Sadwrn, Mawrth 20. Mae ganddynt berfformiad eto yn Ysgol Brynrefail Llanrug yr wythnos gyntaf yn Ebrill ac hefyd perfformiad yng Ngwesty Bron Eryri.

LLONGYFARCHIADAU i Mr a Mrs Bert Thomas, Stryd Newton ar fod yn nain a thaid – ganwyd geneth fach Lucy Jane i'w mab Barrie a'i briod, Bryn Hafod, Stryd Newton.

Hefyd llongyfarchiadau i Mr a Mrs Idwal Roberts, Stryd Newton ar fod yn nain a thaid am y 3ydd tro, ganwyd merch fach i'w mab Allan a'i briod, Groeslon.

Ac i Mrs Roberts, Newton Hall hithau'n nain am y drydedd tro – ganwyd bachgen bach, Alex Winston, i'w mab a'i wraig, Mr a Mrs Roberts, Newton Hall, brawd bach i Sharon a Kelly.

SEFYDLIAD Y MERCHED – Buom yn dathlu Gŵyl Ddewi, fel Sefydliad, nos Iau, Chwefror 25, yng ngwesty Y Grosvenor, Llanberis, a phawb yn canmol y swper blasus a baratowyd gan Mrs Cousins ar ein cyfer. Ar ôl y swper cawsom Noson Lawen. Darllenwyd feirniadaeth y Llinell Goll gan Mrs Jean Elis, a diolch yn fawr i Mr J.W. Elis (Perisfab) am osod a beirniadu y Llinell Goll. Y buddugol oedd Mrs Enid Rhys Owen ac fe gafwyd ddefod Coroni'r Bardd o dan ofal Mrs Betty Humphreys a Mrs Jean Elis, gyda Mrs Jan Davies a Mrs Dilys Phillips yn cynorthwyo. Diddorol a hwyliog iawn oedd y gystadleuaeth gwisgo fel cymeriad adnabyddus, ac mae'r aelodau yn haeddu canmoliaeth am eu syniadau, a syndod oedd gweld cymaint o dalentau cudd yn dod i'r amlwg! Hyfryd oedd cael cwmni Mrs Martin Owen ar ôl ei salwch ac yn amlwg yn mwynhau ei hun. Anfonwyd cyfarchion yr aelodau at Mrs Nancy Williams sydd heb fod yn dda yn ddiweddar, a dymunwyd adferiad buan iddi hi.

DERBYN MEDAL

Ar ddechrau cyfarfod y Cyngor Sir am 10.30 Mawrth 4 cyflwynodd Syr Richard Williams-Bulkeley, Bart, Y.H., Arglwydd Raglaw Gwynedd, ar ran y Frenhines Fedal y B.E.M. i Mr Hugh R. Jones, Bod Fair, Llanberis, am ei wasanaeth fel Ceidwad a Chynorthwywr Technegol yn Amgueddfa Chwarel Gogledd Cymru.

**CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR**

## CÔR Y 'SNOWDON LADIES' 1902



Anfonwyd y llun uchod gan Mrs Hugh R. Jones, Bod Fair. Ei hewythr yw'r arweinydd. Mae teuluoedd y rhan fwyaf o'r merched yn y darlun yn byw yn yr ardal a'r cylch heddiw.

# SIBRYDION O'R YSGOLION

YSGOL BRYNREFAIL

EISTEDDFOD YR URDD – Daeth Tymor Eisteddfod yr Urdd unwaith eto, ac eleni bydd yr eisteddfod ym Mhwllheli. Bu'r ysgol yn llwyddiannus mewn dwy Eisteddfod Gylch a Sir. Yn Eisteddfod Cylch Arfon daeth Côr deulais ieuengaf yr ysgol a'r Parti Cerdd Dant yn fuddugol. Hefyd aeth 6 unawdydd trwodd i'r Eisteddfod Sir, sef Gwyn Roberts ar y trwmped, Sharon Williams ar y piano a'r unawd merched, Jane Parry ar yr unawd cerdd dant, Bethan Jones ar y ffliwt, Einir Parri ar y delyn, Manon Williams yn adrodd a Delyth Williams ar y piano. Daeth Alison Edwards a Jane Parry yn gyntaf ar y ddeuawd.

Cafwyd llwyddiant ysgubol yn Eisteddfod Sir Eryri hefyd, y disgyblion hŷn y tro hwn. Daeth y Parti Cerdd Dant yn ail, daeth Gwlith yn gyntaf ar y Gân Werin Fodern a Sian Gibson yn 3ydd. A daeth Sian a Rhian yn fuddugol ar y ddeuawd. Rhain fydd yn mynd ymlaen i Bwllheli.

Hefyd, cafwyd 2 gôr adrodd o'r ysgol ac er na ddaethant yn fuddugol, mae canmoliaeth uchel amdanynt. Diolch i Mrs Carys Jones, Mrs Rhian Elis, Mrs Mary Hughes a Mrs Jean Plemming am fod wrthi yn ddiwyd yn eu dysgu.

DARLITHWYR ADNABYDDUS – Yn ystod y tymor daeth dau ddarlithydd at y chweched dosbarth. Bu Dr John Gwilym Jones yn darlithio ar 'Yr Haf a Cherddi Eraill', a'r Dr Derec Llwyd Morgan ar 'Ellis Wynne'. Mae'r llyfrau yma yn rhan o gwrs Cymraeg lefel A. Diolch i Mr Alwyn Plemming am drefnu iddynt ddod.

HELO BOBOL – Daeth Rhiannon Williams, golygydd Helo Bobol i'r ysgol yr wythnos diwethaf i roi cyfweliad i Gwlith.

Cawsant hefyd gyfle i ganu un o'u caneuon. Darlledwyd y rhaglen ar Fawrth 26 ychydig ddyddiau cyn eu cyngerdd gyda Hogia'r Wyddfa.

CYNGERDD CERDDORFA RANBARTHOL ARFON – Cynhaliwyd Cyngerdd yn neuadd yr ysgol nos Fercher, Mawrh 24, gan gerddorfa Ranbarthol Arfon. Cafwyd amrywiaeth o eitemau ganddynt, yn ogystal ag eitemau gan Ysgol Dyffryn Nantlle. O'r Ysgol hon cafwyd perfformiadau gan y buddugwyr yn Eisteddfod yr Urdd.

LLWYDDIANT ARLUNIO – Daeth Louise Bernard ag enwogrwydd i'r ysgol mewn maes hollol wahanol, sef Arlunio. Daeth Louise yn 2il drwy wledydd Prydain yng Nghystadleuaeth Arlunio Genedlaethol Wrigleys. Cafodd wobr o £20 am ei llun o bêl-droedwyr. Mae Louise yn yr 2il ddosbarth, ac mae'n ddiolchgar iawn i'w hathro, Mr Evie Roberts am ei chynorthwyo ym mhob ffordd. Llongyfarchiadau mawr iddi.

PÊL-DROED –

Bu timau o Ysgol Brynrefail yn chwarae ym Methesda. Dyma'r canlyniadau: dan 13: colli 2-0; Dan 15, ennill 3-2; hŷn, colli 3-1. Dewiswyd Steven Owen y gôl geidwad o Gwm-y-Glo i chwarae gydag Ysgolion Gogledd Cymru yn Nulyn yn erbyn tîm Ysgolion Dulyn. Colli wnaeth y Cymry o 4-1.

Cynhaliwyd cystadleuaeth 5 bob ochr Ysgolion Arfon i fechgyn dan 14 oed yn y Ganolfan Chwaraeon yng Nghaernarfon. Collodd tîm yr ysgol yn y rownd go-gyn-derfynol ac fe aeth y tîm A allan o'r gystadleuaeth yn y rownd gyn-derfynol o 1-0 i Ysgol Dyffryn Nantlle.

TRAWS GWLAD – Fe ddewiswyd y rhedwyr canlynol i gynrychioli ysgolion Arfon ym mhencampwriaeth Gwynedd. Genethod dan 13, Rhian Lewis (Deiniolen) Andrea Roberts (Llanberis); Bechgyn dan 13, Matthew Ward, Dafydd Jones, Martin Roberts (i gyd o Lanrug); Genethod dan 17, Melanie Sellers, Carol Prydderch, Irene Evans (i gyd o Lanberis); Bechgyn dan 17: Michael Roberts (Llanberis). Fe aeth Michael Roberts a Melanie Sellers ymlaen i gynrychioli Gwynedd yn y pencampwriaethau cenedlaethol yn Llandrindod. 'Does dim ras i ddisgyblion dan 13 yn y cyfarfod cenedlaethol. Yn anffodus fe aeth Michael i lawr efo'r ffliw. Daeth Melanie yn 52 allan o 130 o redwyr.

RASUS TRAWS GWLAD YR YSGOL

Cynhaliwyd rasus traws gwlad yr ysgol ar Fawrth 23. Dyma'r canlyniadau: Bechgyn dan 13, 1. Matthew Ward, Llanrug) 16m – 30.7 eil. (Record); 2. Martin Roberts (Llanrug), 3. Dafydd Jones (Llanrug). Bechgyn dan 15: 1. Darren Roberts (Llanberis) 16 M – 10.3 eil.; 2. Gary Williams, Deiniolen; 3. Haydn Maxwell, Deiniolen. Bechgyn Hŷn 1. Michael Roberts, Llanberis 22m – 23 eil.; 2. Kevin Prydderch, Llanberis; 3. Arfon W. Hughes, Llanberis. Genethod dan 15: 1. Mair Wyn Williams, Llanberis, 19m – 10 eil.; 2. Delyth Williams, Bethel; 3. Anna Wood, Ceunant. Genethod Hŷn 1. Melanie Sellers, Llanberis. 18m – 13 eil.; 2. Carol Prydderch, Llanberis; 3. Wendy Williams, Deiniolen. Cyfanswm Pwyntiau: Eryri – 99½, Gwyrfai – 81, Elidir – 66, Eilian – 63½.

**4 MEDAL AUR**

Yn ystod y mis cynhaliwyd cwrs hyfforddi sgïo o dan nawdd Cyngor Sgïo Cymru, yn Leysin (Y Swisdir). Yr oedd plant o bob rhan o Gymru yn bresennol ar y cwrs wythnos a gwnaeth Ysgol Brynrefail yn hynod o dda. Enillwyd 4 Medal Aur: Christopher Lloyd, bechgyn tan 18. Rubina McCann – Genethod dan 15; Timothy Lloyd, bechgyn dan 15; Kirsty McCann, Genethod tan 13. Llongyfarchiadau i'r pedwar ohonynt.

## DIOLCH RUTH CROESO CARYS

Y mis hwn mae Ruth Lennon yn gorffen ei gwaith gyda'r golofn hon, oherwydd pwysau arholiadau yn ystod y misoedd nesaf. Dymunaf bob llwyddiant i Ruth yn ei harholiadau lefel A, a gobeithiaf y bydd yn gwireddu ei bwriad o fynd i Goleg Aberystwyth i astudio ar gyfer gradd mewn cerddoriaeth. Diolch yn fawr iawn Ruth am dy waith ardderchog yn ystod y flwyddyn aeth heibio.

Carys Jones o Lanberis fydd yn cymryd lle Ruth am y flwyddyn nesaf. Mae Carys ar ei blwyddyn gyntaf yn y chweched dosbarth yn astudio Cymraeg, Hanes ac Ysgrythur. Gobaith Carys yw pasio lefel A yn y pynciau hyn cyn dechrau gyrfa fel gweinyddes yn Lerpwl. Croeso i'r Eco Carys!

## WYTHNOS HEDDWCH BYD

**Ebrill 4-11, 1982**

Fe gofir mis Mawrth 1982 fel y mis y penderfynodd y Llywodraeth Doriaidd fwrw ymlaen gyda'r cynllun 'Trident', a hynny er gwaethaf protest a gwrthwynebiad o bob tu – gan gynnwys o'u tu hwy eu hunain.

Bwriedir gwario dros saith mil o filiynau o bunnau ar yr arf eithaf yma, yr arf mwyaf dinistriol yn hanes y byd. £7,000 miliwn, ar adeg pan na chaniateir i athrawon a nyrsus dderbyn codiad cyflog fydd yn cyfateb i chwyddiant hyd yn oed. Ond nid eu cost ariannol anferthol ddylai beri braw i ni ond eu pwer dieflig a'u pwrpas erchyll. Dyma'r arf sy'n llawer cryfach ac sy'n anelu'n gywirach na'r un arf arall a gynhyrchwyd erioed o'r blaen. Y bwriad yw efelychu'r cynllun sydd gan yr Americaniaid a chael pedair llong danfor fydd yn cludo 16 taflegryn (missile) a fydd yn eu tro yn cario 8 bom niwclear o 100,000 T.N.T. Fe fydd yna felly 512 bom Niwclear sylweddol eu maint yn barod i'n 'hamddiffyn'. Amser a ddengys i'n hamddiffyn yn erbyn pwy ac at ba dargedau yr anelir hwy yn ein hawr o gyfyngder. Faint bynnag o 'amddiffyniad' a gynigiant, gallwn fod yn sicr o un peth, sef y ffaith y bydd gwledydd Prydain, yn uchel iawn ar restr targedau unrhyw 'elyn' oherwydd ein parodrwydd i ddefnyddio'r datblygiad milwrol eithaf hwn.

Ond mae yna newyddion da. Yn dilyn penderfyniad Cyngor Sir Clwyd ar Chwefror 23 i gadw'r Sir yn Ardal ddi-Niwclear, cyhoeddwyd fod Cymru benbaladr bellach yn wlad ddi-Niwclear, y genedl gyntaf yn Ewrop i wneud safiad o'r fath.

Gobeithir adlewyrchu'r ffydd a'r hyder newydd yma yng Nghymru yn ystod Wythnos Heddwch Byd, Ebrill 4-11. Yn ystod y cyfnod hwn trefnwyd nifer o weithgareddau fydd yn symbol o'r gobaith sydd gennym yn nyfodol heddychlon y byd. Hoffwn dynnu sylw'ch darllenwyr yn arbennig at gyfarfod a drefnir ar y cyd rhwng Canghennau Caernarfon, Llanrug a Dyffryn Nantlle o CND Arfon.

Cynhelir y cyfarfod ar Y Maes, Caernarfon, am 7.30, Nos Iau, Ebrill 8. Disgwylir Dafydd Wigley, A.S., Dafydd Iwan a'r Cynghorydd Betty Williams yno i siarad ac i arwain y daith o'r Maes i Ysgol Syr Hugh Owen, lle dangosir ffilm o'r enw 'The Seventh Enemy'.


Hoffwn eich annog i sicrhau y bydd hwn yn gyfarfod cofiadwy ac i'ch argymell i annog eich perthnasau a'ch cydnabod i ddod yn eu cannoedd i gefnogi'r Ymgyrch dros ddiarfogi – y Mudiad sydd am weld yfory teilwng i'n plant. Os ydych am ragor o wybodaeth, cysylltwch â

Manon Rhys,
Dôl Feredydd,
Llandwrog.
Llanwnda 830443

**Eisoes, mae bws wedi'i drefnu ar gyfer y rhai ohonoch o Lanberis a'r cyffiniau sy'n bwriadu dod i'r cyfarfod. Bwriedir trefnu bws ar gyfer pobl Llanrug a'r cylch yn ogystal. Am yr holl fanylion cysylltwch â Hefin Jones, Pant Mwyn, Llanrug. Ffôn: Caernarfon 3838.**


**Wavell Roberts**
**CIGYDD**
**LONDON HOUSE**
**LLANRUG**
**Ffôn: Caernarfon 3574**
*PEN CIGYDD Y FRO!*
Yr ŵyn lleol mwyaf blasus
Selsig cartref, cigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist
MYNNWCH Y GORAU
A DEWCH ATOM NI!

**BILL ac EILEEN GRIFFITHS**



**Antiques**
**Ivy Cottage**
**BETHEL**
*Ffôn:*
*Y FELINHELI 670556*
**PRYNWYR A GWERTHWYR HEN BETHAU**
*Telir prisiau da*
*Trafodir busnes yn gwbl breifat a chyfrinachol*

# CWM-Y-GLO

DIOLCH – Dymuna Mrs Dilys Jones, Arwel, Gareth, a theulu'r diweddar Mr Dafydd E. Jones, 4 Bryn Hyfryd, ddiolch o galon i bawb am bob cydymdeimlad a charedigrwydd tuag atynt yn eu profedigaeth, am y llythyrau a'r llu cardiau. Hefyd am y rhoddion i Gronfa Ymchwil y Galon.

DAVID ELIAS JONES – Pan fu farw David Elias Jones, 4 Bryn Hyfryd ar Chwefror 15 yn ysbyty Môn ac Arfon, collwyd cymeriad hynod o boblogaidd, ac un a adwaenid gan y mwyafrif o drigolion bro'r Eco. Cofir am y postmon ifanc a'r wên siriol, a'r hiwmor direidus, tawel, y cymwynasgarwch a'r agosatrwydd a berthynai iddo. Hoffai bobl, ac o'r herwydd mwynhâi ei waith.

Saith mlynedd yn ôl goddiweddwyd ef gan afiechyd blin, a dechreuodd y brwydro dewr gartref ac mewn ysbytai.

Gwyddai faint ei siawns pan benderfynodd dderbyn triniaeth lawfeddygol yn ysbyty Caerdydd. Am ysbaid edrychai pethau'n addawol, ond trodd y gobaith yn siomiant a dyna'r pryd y daeth gwir gryfder ei gymeriad i'r amlwg wrth iddo wynebu'r gwaethaf, yn dawel a dirwgnach. Do, "fe ymdrechodd ymdrech deg," a bu gofal a ffyddlondeb ei briod a'i feibion o gymorth amhrisiadwy iddo.

Daeth cynulleidfa niferus i gapel y Tabernacl ddydd ei angladd a thalwyd tyrnged deilwng iddo gan y Parchedig Gwynfor Williams, Llanberis, a chymerwyd rhan yn ogystal gan y Rheithor y Parchedig Gwynfor Williams, Llanrug. Derbynied ei briod, Dilys, ei feibion Hywel a Gareth, hefyd ei frodyr a'r teulu oll ein cydymdeimlad dyfnaf yn eu profedigaeth a'u hiraeth.

**ER COF AM DAFYDD ELIAS**

**Ei nychdod fu'n ormodol – profodd friw**
**Profodd frath dirdynnol,**
**O'i hir-faith daith derfynol**
**Ni ddaw ein Dafydd yn ôl.**

**R.H. Parry**
**(Glandŵr gynt)**

BABANOD NEWYDD – Yn ddiweddar ganed mab i Jennifer a Graham Fletcher, Tan y Bryn, Bwlch, a ganed merch i Llinos a Michael Thomas, 21 Dolafon. Croeso i'r rhai bach.

BEDYDD – Yng nghapel y Tabernacl bedyddiwyd Kelly, merch Susan a Cledwyn Jones, 2 Dolafon, yn gwasanaethwyd gan y Parch Hugh Roberts, Llanrug.

DIOLCH – Dymuna teulu'r ddiweddar Mrs Mary W. Chick ddiolch yn ddiffuant am bob caredigrwydd a dderbyniodd hi yn ystod ei gwaeledd, ac hefyd am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd.

NEWYDDION DRWG – Yn ystod y dyddiau diwethaf clywsom am farwolaeth dau o gyn-drigolion Cwm-y-glo, sef Mr Evan Morris Williams, Tŷ Canol gynt, a Mrs Tom Phillips a arferai drigo yn Noddfa. Cydymdeimlwn yn fawr â'r ddau deulu.

MERCHED Y WAWR – Dathlwyd Gŵyl Ddewi gan yr aelodau dan arweiniad yr Is-lywydd Mrs Hannah Jones yng nghwmni cynrychiolaeth dda o gangen Bethel a gwesteion eraill. Yn gyntaf cafwyd swper o fwyd traddodiadol Cymreig wedi ei baratoi gan yr aelodau.

'Gwlith' fu yn ein diddori yn yr ail hanner ac yr oeddem i gyd yn teimlo yn falch o'r genethod ifanc dawnus yma o'n hardal. Cafwyd rhaglen amrywiol o ganu penillion, caneuon gwerin modern, rhai wedi eu cyfansoddi gan y grŵp, a chyflwyniad bywiog a siriol gan Mrs Carys Jones.

Diolchwyd gan y Llywydd Miss Mat Pritchard a Llywydd cangen Bethel Mrs Price gan ddymuno yn dda i'r 'Gwlith' yn y dyfodol.

Ddydd Sadwrn, Ebrill 3 cynhelir Ffair Wanwyn y rhanbarth yng Nghaernarfon a gofynnir i'r aelodau fynd â'u rhoddion o fwydydd i Miss Mair Rowlands erbyn y dydd Gwener cynt.

## GWOBRAU CYNGOR CELFYDDYDAU CYMRU

Cyhoeddodd Cyngor Celfyddydau Cymru fod cyfanswm o £2,000 i'w ddyfarnu i awduron pump o lyfrau.

Dyfernir y gwobrau'n flynyddol ar argymhelliad y Pwyllgor Llenyddiaeth sy'n penodi chwech o'i aelodau i ddarllen ac adrodd ar y teitlau dan ystyriaeth. Eu bwriad yw cydnabod rhai o'r llyfrau mwyaf arbennig a gyhoeddwyd gan awduron Cymreig yn ystod 1981 ac maent yn rhan o bolisi'r Cyngor o estyn cymorth uniongyrchol i lenorion.

**GWOBRAU I LYFRAU CYMRAEG**

Dyfarnwyd gwobr o £500 i Rhiannon Davies Jones am ei nofel ddiweddaraf *Eryr Pengwern* a gyhoeddir gan Wasg Gomer. Nofel hanesyddol ydyw, sy'n adrodd hanes Heledd, ac a seiliwyd ar y brwydro yn ardal y Gororau rhwng Cymru a Lloegr yn ystod y seithfed ganrif.

Dyfarnwyd £500 hefyd i Alun Jones am ei nofel *Pan Ddaw'r Machlud;* cyhoeddwyd hon hefyd gan Wasg Gomer. Mae'r nofel yn ymdrin ag un o nodweddion bywyd cyfoes, sef terfysgaeth. Disgrifia gyfnod o rai dyddiau pan yw'r heddlu yn amgylchu nifer o derfysgwyr sy'n dal teulu bychan o Gymry dan warchae mewn bwthyn yng Ngogledd Cymru. Dyma nofel ddyfeisgar, gyffrous a hollol gyfoes.

**GWOBRAU I LYFRAU YN YR IAITH SAESNEG**

Ar ôl ystyried cyfanswm o bron i hanner cant o deitlau dewiswyd tair cyfrol Saesneg i'w hanrhydeddu.

Dyfarnwyd gwobr o £500 i Kenneth O. Morgan am ei gyfrol *Rebirth of a Nation: Wales 1880-1980.* (Gwasg Clarendon, Rhydychen a Gwasg Prifysgol Cymru). Hon yw'r gyfrol gyntaf yn y gyfres arfaethedig o chwech o deitlau a fydd yn ymdrin â hanes Cymru ers y cyfnod cynnar. Dywedwyd am gyfrol Dr. Morgan mai hi 'yw'r digwyddiad mwyaf cofiadwy ym myd hanesyddiaeth Cymru fodern'.

Dyfarnwyd £500 hefyd i *The North Wales Quarrymen 1874-1922* (Gwasg Prifysgol Cymru) gan R. Merfyn Jones, brodor o Lanfrothen, Meirionydd a darlithydd mewn Hanes Fodern ym Mhrifysgol Lerpwl. Mae ei lyfr ef yn ymdrin ag ymdrech y chwarelwyr i drefnu ac 'uno' y chwareli llechi a'r mwynfeydd yng Ngogledd Cymru, yn arbennig yn chwareli anferth y Penrhyn.

Dyfarnwyd gwobr gyffelyb i John P. Ward, am ei astudiaeth *Poetry and the Sociological Idea* (Harvester) sy'n trafod y gwrthwynebiad hanfodol rhwng bob math o farddoniaeth a thraethu cymdeithasegol.

# LLYFRAU

Cyhoeddwyd y llyfrau canlynol yn ddiweddar dan nawddogaeth Cynlluniau Llyfrau Cyd-bwyllgor Addysg Cymru.

**Gyda'n Gilydd.** Cyhoeddwr D. Brown a'i Feibion.

Cyfrol o ddeunydd addoliad ar gyfer Ysgolion Uwchradd. Ceir tua 200 o wasanaethau byrion yma, ar ffurf darlleniad a gweddi, ar gyfer pob achlysur yn ystod y flwyddyn. Gwasanaethau "addysgiadol, adloniadol, ac yn llawn doethineb." Pris £7.95.

**Glas y don** gan Hugh D. Jones, Gwasg Gomer.

Croesawn gyfrol sy'n debygol o apelio at bobl ifanc rhwng 11 a 15 oed. Nofel ddirgelwch ydyw, wedi'i lleoli mewn, ac o gwmpas, gwesty glan môr. Hon oedd nofel fuddugol Cystadleuaeth Genedlaethol y Cyd-bwyllgor Addysg yn 1980. Pris £1.95.

**Antur yr Allt** gan Geraint V. Jones. Gwasg Gee.

Cyfrol sy'n addas ar gyfer plant rhwng 9 ac 11 oed. Stori antur am ddau frawd yn ceisio datrys dirgelwch. Pris £1.60.


**Y FICAR (Grŵp Addawol '81)**

**a DISGO**

NOS LUN Y PASG EBRILL 12
GWESTY BRON ERYRI LLANBERIS

Tocynnau ar werth wrth y drws
Mudiad Adfer



**THEATR GWYNEDD**

**Theatr Cymru**

yn cyflwyno
Enillydd y Tlws Drama yn
Eisteddfod Genedlaethol Maldwyn a'i Chyffiniau, 1981

**BRAWD AM BYTH**
**gan**
**J.R. Evans**

Drama am ddyddiau olaf John Penri

THEATR GWYNEDD BANGOR
Swyddfa Docynnau: Bangor 51708
Mercher-Sadwrn, 21-24 EBRILL 7.30
Tocynnau: £2.50 gyda'r gostyngiadau arferol

Gyda chymorth Cyngor Celfyddydau Cymru a chydweithrediad Cymdeithas Theatr Cymru

**BANGOR 51708**

## "DYNA CHI LYGOD . . ."

*gan*
*Leslie Larsen*

Daeth llygod mawr yn bwnc trafod yn ddiweddar wedi i ni glywed am haid o 300 ohonynt yn llochesu mewn ysgol leol. Os oes anifail sy'n peri dychryn ac atgasedd ynom, yna llygoden fawr yw'r anifail hwnnw, yn fwy mi gredaf na hyd yn oed nadroedd.


Gall pâr o lygod mawr gael nythaid o rhwng 4 a 12 o gywion, 4 neu 5 gwaith y flwyddyn a bod y cywion yn dechrau epilio yn 4 mis oed. Felly o dan amgylchiadau ffafriol, gall y pâr gwreiddiol gyda'u disgynyddion rifo dros fil mewn blwyddyn. Wrth lwc i ni maent yn marw o henaint cyn cyrraedd 3 oed.

Yn 1348 a 1665 cafwyd plâu yn deillio o bigiadau chwain llygod mawr. Yn sgîl hyn bu farw miliynau o drigolion Ewrop. Llygoden fawr ddu oedd hon a ddaeth i wledydd Prydain tua 800 mlynedd yn ôl o'r Dwyrain Canol. Disodlwyd y llygoden hon bron yn llwyr gan y llygoden fawr yr ydym ni'n gyfarwydd â hi. Daeth hon yma tua 250 mlynedd yn ôl mewn llongau o Norwy.


Anifeiliaid cymdeithasol ydyn nhw ac ar y cyfan deuant allan yn ystod oriau'r tywyllwch. Dywedir eu bod yn gallu darogan trychinebau fel llifogydd ac yn sgîl y gallu hyn heidiant i osgoi'r bygythiad. Dywed rhai pobl eu bod wedi gweld heidiau o lygod yn symud gefn nos. Os gwn i a oes un o ddarllenwyr yr Eco wedi cael y profiad dychrynllyd o weld llygod mawr yn mudo?

*Diolchaf i Miss L. Jones, Craig Dinas am fy ffonio ac adrodd ei hanes pan yn Ysgol Brynrefail tua'r flwyddyn 1922 yn cerdded ar draws Llyn Padarn. Yr oedd y rhew yn ddigon trwchus iddi gerdded o Graig yr Undeb i'r ochr arall.*

# MARGED: TYRD YN ÔL



*Pont Meibion dros Afon Nant Peris, — lled cae oddi wrth hen eglwys y plwyf. Ar y chwith gweler effaith y gaeaf caled.*



*Y Bont Fain dros afon Hwch — ar ochr Llanberis i gastell Dolbadarn.*

Yn ôl traddodiad, gosodwyd y piler o lechfaen sy'n ffurfio Pont Meibion dros afon Nant Peris yn ei le drwy i'r hen gawres Marged Uch Ifan godi un pen iddo tra stryffaglai meibion yr ardal â'r pen arall.

Y dyddiau hyn, mae defnyddwyr y llwybr plwyf sy'n arwain dros y bont hynafol yn pitïo nad yw'r hen JCB dynol, (os dyna'r ansoddair iawn) yn dal i fod o gwmpas ei phethau yng nghyffiniau Nant Peris. Yn dilyn llifogydd a thywydd garw'r gaeaf mae'r pentan sy'n dal un pen i'r bont wedi'i danseilio. Ni fyddai Marged oedd yn nodedig am ei chryfder, fawr o dro cyn ei drwsio a gwneud y bont yn ddiogel i'w chroesi unwaith eto. Gyda Marged yn eu plith, ni fuasai'n rhaid i drigolion Nant Peris fod wedi galw ar swyddogion y Cyngor Sir i archwilio'r difrod. Ni fuasent 'chwaith wedi clywed fod yn rhaid iddynt aros am dywydd gwell cyn y medr peiriannau'r ugeinfed ganrif groesi'r cae i fynd at y bont cyn sôn am ddechrau ei thrwsio.

Efeilles i Bont Meibion yw'r Bont Fain sy'n croesi'r afon Hwch o dan Gastell Dolbadarn. Maent yn hynod debyg o ran hyd, lled a thrwch, oherwydd fe'u torrwyd o'r un piler o lechfaen. Digwydd gwythïen yn y lechen, er enghraifft yn yr un safle yn y ddwy bont.

Cysylltwch â ni yn yr Eco os oes gennych chwi'r darllenwyr unrhyw wybodaeth ychwanegol am y pontydd diddorol yma.

## HEN STORI


Awdur o Gymru yn anfon llawysgrif i wasg arbennig, ond yn aros am fisoedd heb dderbyn ateb o'r wasg. O'r diwedd, penderfynu ffonio a holi ynglŷn â'r llawysgrif. Y perchennog yn gofyn iddo ai nofel hanesyddol ydoedd.

"Dyna ydi hi erbyn hyn," oedd yr ateb.

## DRAENOG



Bob tro y byddaf yn teimlo bod y byd yn rhuthro heibio'n wyllt, af am dro i'r Co-op.




CYMYSGWR CONCRIT AR FENTHYG

£10 yr wythnos
£2.50 y dydd

HEFYD CLUDO
LLWYTHI YSGAFN
CLIRIO SAFLEOEDD,
DANFON TYWOD,
GRO A DEFNYDDIAU
ADEILADU ERAILL

ERIC GOVER

11 STRYD YR WYDDFA

LLANBERIS

*Ffôn:*
*LLANBERIS 872285*
*NEU 871327*



Mynnwch eich
PAENT a PHAPUR PAPURO
oddi wrth

**E. WILSON HUGHES**
**84 Stryd Fawr**
**LLANBERIS**

Ffôn: Llanberis 870491

MELYSION A BACO AR WERTH HEFYD



Wil a Val Guy

STORFA TREFLYN


BETHEL

*felinheli 670237*

*Bwydydd* *Teganau*
*Diodydd* *Dafedd*
*Melysion*

# Agor Ffiniau'r Gorffennol

Gan Mary Lloyd Williams, B.E.M.


Hafod
Edeyrn
Pwllheli
15 Mehefin '56
Fy annwyl Ffrindiau,
Bendith arnoch. Blin gennyf fy mod allan yn ddiweddar. O.H.M.S. I'r Nefoedd. Os dymunwch bicio yma o 6 i 8 nos Iau, Mehefin 21. Salm. 23 a 91.
Cofion cu,
T.N.W.

Fel hyn y darllena'r cerdyn post:

Hafod
Edeyrn
Pwllheli
15 Mehefin 56

Fy Annwyl Ffrindiau,
Bendith arnoch! Blin gennyf fy mod allan yn ddiweddar. O.H.M.S. I'r Nefoedd. Os dymunwch bicio yma o 6 i 8 nos Iau. Mehefin 21. Salmau 23 a 91.

Cofio Cu
T.N.W.

**ER COF AM ALUN**

Yr oedd ardal Llanrug mewn galar dwys iawn pan fu farw Alun yn wyth oed mewn Ysbyty yn Lerpwl. Unig blentyn Mr R.T. Pritchard a'r ddiweddar Mrs Eirlys Pritchard, Tŷ Newydd, Llanrug oedd Alun. Bu farw ar Chwefror 6 1956. Yr oedd Alun yn fachgen annwyl iawn ac yn ffefryn gan yr ardal fel y tystiai'r dyrfa fawr yn ei angladd, a nifer y blodau hardd anfonwyd gan y teulu, cymdogion, a chyfeillion o bell ac agos. Yn eu plith yr oedd blodau oddi wrth athrawon a phlant Ysgol Sul a Band of Hope, Capel Mawr, Llanrug, ac athrawon a phlant yr ysgol, a hefyd Staff Ysbyty Alder Hey, Lerpwl. Yr oedd y prifathro y diweddar Mr R.A. Pritchard, athrawon a phlant yr Ysgol Ganol yn cerdded mewn gorymdaith a chanu wrth y bedd. Gwasanaethai'r gweinidog, y diweddar Barch E. Goronwy Williams, a'r Rheithor, y diweddar Barch D. Morris Jones. Cyn troi o'r fynwent dywedodd y Rheithor gan syllu ar yr arch bach – 'Cwsg a gwyn dy fyd'.

Yn angof byth ni fyddi
Er byrred oedd dy oes,
Mae'r amser hyfryd gawsom
Yn nerth i gario'r groes.
(Un o'r athrawon)

Y mae cerdyn Tom Nefyn yn rhoi gwahoddiad i dad a mam Alun fynd yno i gael gair o gysur.

**Digynwr drist deganau – a welir,**
**Gydwylent a'i ffrindiau.**
**Aeth ef i'r nef i fwynhau**
**Drud Ioniant aur delynau.**
**Glan Rhyddallt**



**DAMWAIN YN Y CHWAREL 1913**

Amgylchiad trist arall yn hanes teulu Tŷ Newydd oedd i dad R.T. Pritchard (Richard Thomas Pritchard), gael ei ladd yn Chwarel Dinorwig 30 Medi 1913. Yr oedd hynny ddau fis cyn geni R.T. Pritchard. Gadawyd ei fam i ofalu am bedwar o blant amddifaid – Tom, Elizabeth, Elin, ac un heb ei eni. Un o drysorau pennaf Tŷ Newydd heddiw yw llythyr anfonwyd at ei fam weddw i'w chysuro gan y diweddar Barch H.D. Hughes (gynt o ardal Llanrug) oedd ar y pryd yn weinidog yng Nghonwy. 'Roedd H.D. Hughes yn fab i'r diweddar Mr a Mrs David Hughes, Llys Eryri, ac yn dad i'r Gwir Anrhydeddus Arglwydd Cledwyn o Benrhos, Cyn-Aelod Seneddol Ynys Môn.

Fel hyn y mae'r llythyr yn darllen:

Bryn Heulog
Cadnant Park
Conwy
2 Hydref 1913

Annwyl Mrs Pritchard,
Gofid i'm calon oedd clywed am y brofedigaeth lem sydd wedi eich cyfarfod. Nis gallaf sylweddoli fod y peth yn wir. Y mae fy nghydymdeimlad dyfnaf â chwi yn eich profedigaeth. Yr oeddwn yn gyfaill mawr i'ch annwyl briod, ac yn hoffi ei gyfarfod bob amser.

Yr oedd yn ddyn didwyll gonest a phur iawn, a phob amser yn ymddiddan am y pethau gorau. Chwith iawn gennyf feddwl na chaf ei gwmni mwy; ond yr wyf yn dra sicr os aeth rhywun i mewn i'r bywyd gyda chymeradwyaeth ei Dad fod eich annwyl briod yn sicr o fod wedi myned. Fy ngweddi yw ar i Dduw yn ei drugaredd gysgodi drosoch chwi a'ch plant bach, a'ch diddanu a'ch cysuro yn eich tywydd garw. "Tangnefedd Duw yr hwn sydd uwchlaw pob deall' ddelo yn eiddo i chwi. Nis gallaf feddwl i'r angladd fyned heibiio heb i mi geisio dod gartref i dalu y gymwynas olaf iddo: felly os bydd modd deuaf yna dydd Sadwrn. Derbyniwch chwi a'r plant bach fy nghydymdeimlad dyfnaf

Yn bur iawn
Henry D. Hughes

**MOLAWD I'R DRYW BACH**

**Nerth Dryw, ei chelfydd.**
**(Catwg Ddoeth)**

**Daw hithau a'i phig digoll, –**
**Y Dryw bach, – eu modryb oll!**
**(Dewi Havesp)**

**Cyweirio'i nyth bach, cywrain,**
**Y mae'r Dryw ym mru y drain.**
**(Gwilym Eryri)**

**Nid oes cân ddoniol ganddo, – na thŷ gwych,**
**Na theg wisg am dano:**
**Ei or fawr fychandra fo**
**Wnaiff un yn hoff o hono.**
**(Hen Fardd)**

**Yn y Berth, Tŷ pryderthach – ni welir**
**Neu aelwyd gynhesach:**
**Gweithiwr heb un o'i goethach**
**A'i dro byr yw y Dryw bach**
**(Gwynionydd)**

**Er hin oer, rhydd yr un iach – ei gerdd ddel**
**I'r gwir Dduw'n ddirwgnach, –**
**Canaf finnau'n well bellach,**
**I dreio bod fel Dryw bach**
**Namorydd**

# TAN-Y-COED

MARW – Nos Fawrth, Mawrth 16 yn frawychus o sydyn bu farw Mr Arthur Vaughan Jones, 6 Maesgerddi, Tan-y-coed. Bu farw dri diwrnod cyn ddydd ei ben-blwydd yn 55 mlwydd oed. Claddwyd ef ym Mynwent Llanrug ddydd Sadwrn, Mawrth 20. Y Parch W.O. Roberts a wasanaethai.

Cydymdeimlir fel ardal â'i briod Mrs Catherine Vaughan Jones, â'i chwaer a'i ddau frawd a'r teulu oll yn eu profedigaeth sydyn.

Cydymdeimlwn hefyd â Mrs Ceinwen Humphreys, Clawdd Llwyd, a gollodd chwaer yr un wythnos ag y bu farw ei brawd yng nghyfraith Mr Arthur Vaughan Jones.

Ein cofion a'n dymuniadau da am adferiad buan i Mr Jack Williams, Cartref sydd yn Ysbyty Bryn Seiont ers chwech wythnos.

Da deall fod Mrs Pitts, Caerweddus adre'n ôl o'r ysbyty ac yn gwella'n foddhaol.

Ein cofion a'n dymuniadau da i Mrs Jennie Rees Hughes, Oerddwr sydd heb fod yn dda. Brysiwch wella.

**CLUSTFEINIO**

Clywyd mewn siop trin gwallt merched: "Madam, crib ydi o, nid ffon hud".

# NANT PERIS

CROESO'N ÔL i Gymru am wyliau o Awstralia i Mr a Mrs Hugh Jones, gynt o Ceunant Llanrug. Mae Mr a Mrs Jones wedi cartrefu ers blynyddoedd bellach yn Awstralia ond yn edrych ymlaen i ddod am dro i'w hen gynefin. Maent yn aros yng nghartref chwaer Mrs Jones, sef Mr a Mrs O.W. Humphreys. Gwastadnant. Dymunir amser hapus iawn iddynt yn ein plith a thywydd braf gobeithir cyn troi'n ôl am gartref.

LLONGYFARCHIADAU i Sian Elen, Llys Awel am ddod yn ail am ganu cerdd dant yn Eisteddfod yr Urdd ym Mrynrefail. Da iawn Sian.

PRIODAS – Mawrth 6, yn Eglwys Sant Ioan Sully, Caerdydd, priodwyd Miss Cheryl I Hanson Walsh, 1 Glanhafren, Sully a Mr Edward Ll. Evans, BSc, mab hynaf Mr a Mrs Llewelyn Evans, Nantarman, Bae Cemaes.

Mae mam y priodfab yn enedigol o'r Nant, yn ferch i'r diweddar Mr a Mrs Edward Jones, Beudy Mawr gynt. Bu'r wledd briodas yng Nghastell Caerdydd a'r melrawd ym Majorca. Dymunir yn dda iddynt yn eu bywyd newydd.


Y Bistro
45 Stryd Fawr
LLANBERIS
*Ffôn: LLANBERIS 871 278*
(Danny a Nerys Roberts)
**Pryd gorau'r fro**

GWYDRO DWBL?
ARFON WINDOW FITTERS Ltd.
**56a FFORDD PENCHWINTAN, BANGOR**
**Bangor 52313**
Cyngor arbenigol yn rhad ac am ddim
Gwarant o 5 mlynedd ar yr holl waith
*CEFNOGWCH Y CWMNI LLEOL*
*SY'N LLOGI LLAFUR LLEOL*
**Cyfarwyddwr: Ian Harris**

# WAUNFAWR

Y GANOLFAN – Gwnaed elw o dros £100 mewn disgo a gynhaliwyd yn Ysgol Syr Huw Owen. Mae'r Cyngor Cymuned, Pwyllgor y Ganolfan a Rheolwyr yr Ysgol wedi penderfynu cyfarfod i drafod yr holl ddatblygiadau ar gaeau Tŷ Hen, yn arbennig yr offer chwarae i'r plant lleiaf a'r maes chwarae arfaethedig.

Bydd Dylan, 'Traed Wadin', Parti Eryri a Threfor Selway yn cynnal noson arbennig yn Neuadd yr Eglwys nos Wener Mai 28 am 7.30. Yr elw i gronfa'r Ganolfan.

Mae'r pwyllgor am ofyn i gwmni beiciau 'Raleigh' am fenthyg beic i'w bedlo yn ei unfan ar y maes yng Nghaernarfon i godi arian.

Tynnir gwobr fuddugol y 'Raffl Fawr' ym mhwyllgor nesa'r Ganolfan ar Ebrill 7. Mae'r pwyllgor yn diolch i Mr Alun Williams, Fron Goediog am roi carafan am ddim i storio defnyddiau adeiladu ar safle'r Ganolfan. Yn ystod misoedd yr haf penderfynwyd mynd i stadau'r pentref, – Bro Waun, Bryn Golau, Ael-y-bryn a Threfeilian i dynnu enillwyr y Clwb 300.

MERCHED Y WAWR – Erbyn hyn cafwyd dau gyfarfod gwahanol a diddorol ym 1982. Ym mis Ionawr, coluro a phrydferthu yng nghwmni Nia Jones, Llanllyfni a gawsom, a phawb yn sylweddoli mai nid dipyn o bowdr yma ac acw a dipyn o gochni ar wefus a boch, a dipyn o dduwch ar yr amrannau yw coluro. Tris Owen gafodd y fraint o fod yn fodel. Llywyddwyd gan Irene Roberts a Mary Vaughan Jones. Rhoddwyd y raffl gan Alma Jones ac fe'i henillwyd gan Mary B. Davies. Diolchwyd i Nia Jones gan Gillian Wyn. Ym mis Chwefror, John Roberts, cyn-ysgrifennydd yr Eisteddfod Genedlaethol yn y Gogledd oedd y siaradwr. Ei destun oedd y siwrnai o'r Groeslon i Wrecsam, a wnaeth gannoedd o weithiau yn ystod cyfnod parati'r Eisteddfod yno. Wrth edrych drwy ffenestr y car gwelodd leoedd hanesyddol a soniodd am enwogion yr ardal yma – sgwrs eithriadol o ddiddorol. Llywyddwyd gan M.V. Jones a diolchwyd iddo gan M. Morgan Jones. Rhoddwyd y raffl gan Irene Roberts ac fe'i henillwyd gan Glenys Jones. Y tymor yma Nan Huws Roberts yw'r ysgrifennydd a Bet Ll. Huws yw'r trysorydd.

Yn y Ffair Wanwyn ar Ebrill 3 yn Neuadd y Fyddin, Caernarfon stondin o gelfi'r gegin a'r tŷ fydd gennym, a'r mis yma John Owen Huws sy'n dweud straeon wrthym.

SEFYDLIAD Y MERCHED – Cynhaliwyd cyfarfod mis Mawrth o'r Sefydliad yn Neuadd yr Eglwys, nos Iau, Mawrth 4, gyda Mrs Catherine Jones yn llywyddu.

Croesawodd Mrs Morley Williams a Miss M. Roberts, Glan Aber yn ôl i'r Sefydliad ar ôl eu gwaeledd, ond drwg oedd ganddi ddweud fod Mrs Bet Hughes yn methu dod i'r cyfarfod. Darllenwyd y llythyr misol a chofnodion y mis diwethaf, a'u trafod. Mae Mrs Pat Parry am gynrychioli Sefydliad y Waunfawr yn y Cyfarfod Blynyddol a gynhelir yn Llundain ym mis Mehefin.

I ddathlu Gŵyl Ddewi, y wraig wadd oedd Mrs Buddug Lloyd Roberts o Gricieth a chafwyd sgwrs ddiddorol, gydag ambell i gân ganddi a'r hen ganeuon Gwerin Cymraeg.

Diolchodd Mrs Morfa Evans iddi ac enillodd Mrs Idris Jones y raffl a roddwyd gan Mrs Morfa Evans. Rhoddwyd blodau bwrdd y llywydd i Mrs Bet Hughes.

Cynhelir cyfarfod mis nesaf yn Neuadd yr Eglwys nos Iau, Ebrill 1 pan fydd Mr Gwynfor Williams yn rhoi sgwrs ar Wasanaethau Ambiwlans.

CLWB GWYRFAI – Mawrth 4, trwy garedigrwydd y prifathro Mr Leslie Jones, treuliodd aelodau'r clwb bnawn yn yr ysgol i ddathlu Gŵyl Ddewi. Cafwyd cyngerdd ardderchog gan y plant, yna te blasus rhoddedig gan famau'r pedwerydd dosbarth, a'i baratoi gan ferched y gegin. Diolchwyd yn gynnes iawn ar ran y clwb gan Dr Miles am y croeso a dderbyniwyd. Yn Neuadd yr Eglwys, Mawrth 18 bu'r Parchedig A.W. Cherry, Llandwrog yn arddangos peth o'r brodwaith cywrain o'i eiddo yn gysylltiedig â symbolau crefyddol. Dymuna'r clwb wellhad buan i'r holl aelodau sydd yn cwyno ar hyn o bryd.

Y CARNIFAL – Gorffennaf 2-10, 1982. Dewisir Brenhines y Carnifal a'i gosgordd am eleni yn Neuadd yr Eglwys, nos Wener, Ebrill 23 am 7 o'r gloch, mewn noson o ddawnsio a gemau i blant y pentref. Gwneir y dewis gan y Frenhines Wendy drwy dynnu enwau allan o het. Tâl Mynediad: Oedolion 20c, plant 10c. Croeso cynnes i bawb.

YR URDD – Daeth Mr Len Jones, Penisa'rwaun, atom nos Fercher, Chwefror 28 i gynnal noson hwyliog o ddawnsio gwerin gyda'r plant. Y nos Fercher ddilynol, tro'r plant oedd hi i ddifyrru eu hunain, drwy ymarfer yr eitemau ar gyfer yr Eisteddfod Gylch. Ac ar Fawrth 10, cafodd y plant fynd i'r Ganolfan Hamdden yng Nghaernarfon i nofio, am iddynt fod wrthi'n ymarfer yn ddyfal ar gyfer yr eisteddfod. 'Roedd pawb yn falch iawn o'u llwyddiant yno. Aeth y côr, y parti cerdd dant ac un o'r partïon recorders i Fangor, ddydd Sadwrn, Mawrth 20 i'r Eisteddfod Sir, ond er iddynt wneud eu gorau ni chânt gyfle i gystadlu ym Mhwllheli.

POB LWC i Huw Ynyr ac Anthony Marston yn yr Eisteddfod Sir yn Llandudno, ddydd Sadwrn, Mawrth 27.

LLONGYFARCHIADAU i Valerie Lewis, Aelybryn a David Wyn Jones, Bro Waun, ar eu pen-blwydd yn 18 oed.

I Kelyth Hughes, Bro Waun, ar ei briodas â Hefina Griffiths o Fangor.

I Geraint Williams, Bro Waun ac Alison Margaret Letman, Cae Steel, ar eu priodas. Byddant yn cartrefu yn Gwylfa.

Dymuniadau gorau i Wendy Eaglestone, Tremallt, sydd wedi dechrau ar ei gyrfa fel nyrs mewn ysbyty yn West Bromwich.

I Michael Wyn Jones, Benallt, sydd wedi cael gwaith yn Awstralia.

A hefyd i Mr Stan Anderson, Bodarfon, ar ei ymddeoliad o Ferodo.

YN YR YSBYTY – Dymuniadau gorau am wellhad buan i Mrs Jones, Lynfod, a Mr R.L. Parry, Rhes Eilian, sydd yn yr ysbyty.

ADREF O'R YSBYTY – Croeso adref i Miss Pritchard, Tref Eilian, Mrs Griffiths, Bronallt, Mr David Griffith, Tref Eilian, Mrs Beryl Jones, Dôl y Coed, Susan Beech, Cynlas, a Mrs Lil Evans, Tegfan. Gobeithio eu bônt yn dal i wella.

CYDYMDEIMLWN â Mrs T.A. Thomas, Haulfryn, ar golli ei mam, Miss Gwladys Lewis, Ardref, ar golli ei chwaer, a Miss Marian Jones, 12 Dôl Erddi, a Mr Leslie Jones (prifathro'r Ysgol) ar golli eu mam.

Drwg gennym glywed am brofedigaeth Mrs Owen, Bryn Peris, yn colli Arthur Harwood o Lerpwl. Bu Arthur yn aros gyda Mrs Owen am 6 mlynedd yn ystod y Rhyfel, fel evacuee a bu'n ffyddlon iawn iddi ar hyd y blynyddoedd.

YR YSGOL – Unwaith eto'r flwyddyn hon, daeth aelodau Clwb Gwyrfai i'r ysgol i uno â'r plant i ddathlu Gŵyl Ddewi. Ar ôl gwrando ar y plant yn canu, adrodd, actio a chwarae offerynnau ,eisteddodd yr aelodau i lawr i de moethus. Rhoddwyd y bwyd gan rieni plant Safon IV, ac fel arfer cafwyd help parod gan Staff y Gegin. Talwyd y diolchiadau i bawb gan y Dr A.L. Miles.

## YR YSGOL FEITHRIN YN DATHLU EI PHEN-BLWYDD



*Y plant a'u hathrawon yn barod i ddathlu.*

YSGOL FEITHRIN – Dathlwyd pen-blwydd yr Ysgol Feithrin yn ddeg oed yng Ngwesty Gwynedd, Llanberis ar Chwefror 26 yng nghwmni John Ogwen a Delwyn Sion. Hefyd yn bresennol oedd Mrs Hughes, Llys Meredydd, oedd newydd ddathlu ei phen-blwydd yn 80 oed. Cyflwynwyd anrheg o flodau iddi gan Mrs Heulwen Jones ar ran pwyllgor yr Ysgol Feithrin. Gwnaeth Mrs Eluned Roberts, Sŵn-y-gwynt deisen yn arbennig i'r achlysur, ac fe hoffai'r Pwyllgor ddiolch yn fawr iawn iddi.

Enillwyr y raffl: 1. Alfred Jones, Cyrnant Lodge (Coes Oen); 2. C.A. Pritchard, 6 Tref Eilian (Cyw Iâr); 3. G. Davies. Bryn Eithin (Tocyn Llyfr); 4. A. Johnston, Tŷ Gwyn (Tocyn record); 5. G. Jones, Glyn Ceris (Llwy garu). 6. Huw Gwilym, Llidiart Wen (Sieri); 7. Iris owen, Tŷ Capel (Gwin); 8. Steve Jones, Morawel (Tegan); 9. Hefin Thomas, Manweb (Bocs bisgedi); 10. John Ogwen. Bocs siocled. Rhodd gan Dr a Mrs R.S. Williams. Diolch i Mrs Heulwen Jones am drefnu'r noson.



*Torri'r deisen!*

Ddydd Llun, Mawrth 1, cafwyd te parti i blant yr Ysgol Feithrin. Fe ddarparwyd y bwyd gan y mamau, a'r plant wedi cael amser da. Fe hoffai'r Pwyllgor ddiolch i'r mamau am ddarparu'r bwyd. Mae yna luniau ar gael o'r ddau ddathliad yma. Cysylltwch â Heulwen Jones, Cyrnant Lodge. Ffôn 388.



*Llun plant yn Ysgol Waunfawr yn 1933 gyda'r athrawesau Miss Williams a Miss Roberts. Prifathro presennol yr ysgol, Mr Leslie Jones|yw'r hogyn bach ar ben y rhes uchaf ar y dde.*


**SCIPIAU ARFON**

YMGYMERIR Â CHLIRIO SBWRIEL O BOB MATH

SBWRIEL ADEILADU, CARTREF A DIWYDIANNOL

TELERAU RHESYMOL

**Ffôn:**

**Dydd Caernarfon 5670**

**Llanfairfechan 680 329**

**Gyda'r Nos**

**Llanberis 872236**



# PENBLETH Y CIWB RUBIK

**Coeliwch neu beidio, ond mae'r stori hon yn wir bob gair!**

**Mewn bwyty yn Lagos, Nigeria, eisteddai dau o wŷr ifanc yn chwarae â chiwb o wahanol liwiau. Daeth perchennog y bwyty atynt, ac ar ôl holi ynglŷn â'r ciwb lliwgar, honnodd y gallai ddatrys y broblem cyn i'r ddau ŵr ifanc orffen bwyta. Dair awr yn ddiweddarach, ac ar ôl rhoi pryd o fwyd am ddim i'r gwŷr ifanc, bu'n rhaid i'r perchenog gydnabod ei fod wedi methu'n lân â datrys porblem Ciwb Rubik.**

Nid y perchenog bwyty hwn oedd y cyntaf na'r olaf i fethu â datrys problem Ciwb Rubik, neu Giwb Hud Hungary fel y'i gelwir weithiau. Bellach, mae miliynau o bobl ym mhob rhan o'r byd wedi eu cyfareddu gan bosibiliadau'r bocs bach o liwiau symudol.

Gŵr o'r enw Erno Rubik a fu'n gyfrifol am ddyfeisio y Ciwb; gŵr a chanddo raddau prifysgol mewn peirianneg bensaerniol a dylunio. Mae'n dysgu mewn coleg yn Budapest, Hwngari. Wrth bendroni ynglŷn â rhai o reolau Gemoetreg yn ystod haf 1974, cafodd y syniad o adeiladu model tri-dimensiwn a allai droi o amgylch tair echel. Dyfeisio'r mecanwaith oedd y gwaith anodd, ond buan y cafodd batrwm o sgwarau i symud ar wynebau ciwb. Rhoes dri neu bedwar tro i'r ciwb, ac yn sydyn 'roedd yn wynebu sialens anferth – troi'r cyfan yn ôl i'r patrwm gwreiddiol! Bu wrthi am wythnosau yn gwneud hynny, ac yna ysgrifennodd y broses allan yn fanwl.

Yn gynnar yn 1975 aeth Rubik a'i syniadau, a'i giwb, i wneuthurwyr teganau yn Hwngari – cwmni Politechnika. Ar y cychwyn, credai'r rheini fod y 'tegan' newydd hwn yn rhy gymhleth i apelio llawer i brynwyr, ond gwnaethpwyd tua 5,000 o giwbiau a'u hanfon i'r siopau yn Hwngari cyn y Nadolig ym 1977. O fewn dyddiau roeddynt wedi eu gwerthu i gyd. Rhuthrwyd i wneud 7,000 arall. Yn fuan wedyn, gwelwyd hysbyseb mewn papur newydd yn Budapest yn dweud fod cyfarfod o Glwb Ciwb Rubik wedi ei drefnu. Daeth 2,000 o bobl i'r cyfarfod cyntaf hwnnw; a phob un ohonynt eisiau gwybod sut i ddatrys y broblem!

Yn 1978 daeth athro mathemateg o Hwngari o'r enw Tamas Varga, ac un neu ddau o'r ciwbiau hyn i Gyngres Ryngwladol y Mathemategwyr yn Helsinki. Yno, cyfarfu â David Singmaster o Lundain, a pherswadiwyd ef i roi un o'r ciwbiau iddo. Yn ôl yn Llundain, aeth Singmaster ati i ddatrys problem y ciwb, ac i 'sgwennu llyfr i egluro sut i gael Ciwb Rubik yn ôl i'w gyflwr gwreiddiol. Mae'r llyfr hwnnw bellach wedi gwerthu miloedd ar filoedd o gopïau.

Yr hyn sy'n gwneud y Ciwb yn un mor anodd i'w ddatrys yw'r nifer posibl o symudiadau y gellir eu defnyddio: 43,252,003,274,489,000 neu 43 triliwn! Mae mathemategwr o'r enw Dr Morwen Thistlethwaite wedi gweithio allan gyda chymorth cyfrifiadur, ei bod yn bosibl cael y Ciwb yn ôl i'w gyflwr gwreiddiol mewn 52 symudiad allan o'r 43 triliwn, ond cred rhai ei bod yn bosibl mewn llai o symudiadau na hyn. Beth amdani?

## GWLITH

(parhad o dudalen 1)

yn Ysgol Brynrefail Ebrill 22 yn cynnwys disgyblion presennol a chyn-ddisgyblion talentog yr ysgol yn cynnwys Hogia'r Wyddfa, Megan Roberts ac Annette Bryn Roberts.

Yng Nghill Airne bydd y grŵp yn canu dwy gân sef 'Cân Catrin' (geiriau gan Arfon Wyn o'r grŵp Pererin a'r gerddoriaeth gan Rhian Owen a Siân Gibson, a "Mae 'nghariad i'n Fenws".

Aelodau'r grŵp, o'r chwith i'r dde yn y llun yw Rhian Owen, Lynn Jones, Nia Jones, Siân Gibson a Ruth Lennon. Mae Iola Llywelyn, sy'n fyfyrwraig yn Aberystwyth hefyd yn aelod o'r grŵp a bydd yn teithio gyda'r genod i'r Iwerddon ym mis Mai.

Ein llongyfarchiadau a'n dymuniadau gorau iddynt.

(Llun: Islwyn L. Jones)


J.M. JONES A'I FAB

GWAITH CERRIG BEDDAU

A THREFNWYR ANGLADDAU

DEINIOLEN

Ffôn: LLANBERIS 872518 (Dydd)

Y FELINHELI 670124 (Nos)


## GŴYL Y CESTYLL 1983

Aeth yn arfer erbyn hyn i efelychu traddodiad y Tseiniaid, a bedyddio'r flwyddyn. Rydan ni'n hen gyfarwydd â Blwyddyn y Goeden, Blwyddyn y Plentyn a Blwyddyn yr Anabl. Bydd 1983 yn flwyddyn arbennig i ni yng Nghymru oherwydd mi fyddwn yn dathlu Blwyddyn y Cestyll.

Go brin fod yna unrhyw wlad fechan arall drwy'r byd hefo cymaint o gestyll i'w herwau â Chymru. Gallwn ymfalchïo ynddynt – hen adeiladau nobl y cyfnod Edwardaidd, megis Castell Caernarfon; cadarnleoedd creigiog y bryniau, megis Castell y Bere a'r cestyll sydd bellach yn ddim ond adfail – y muriau lle bu mawredd.

Ein gobaith yw creu'r cestyll yn ganolfannau a fydd yn byrlymu o weithgaredd drwy gydol y flwyddyn, o fis Mawrth ymlaen. Eisoes bwriwyd ati i ddechrau llunio rhaglen – gwleddoedd canol-oesol, cyngherddau corawl, pasiantau, nosweithiau llawen, ffeiriau, gwyliau marchogaeth a bwa-saethu. Rhywbeth at ddant pawb, gobeithio.

Rydan ni'n disgwyl, hefyd, y bydd tipyn o symud ar hyd a lled y wlad – trip ysgol o gysgod muriau Cilgerran yn teithio i fyny i dreulio oriau ar dyrau Harlech, Merched y Wawr bro Dinefwr yn gwledda noson yng Nghastell Caerdydd ac yn y blaen. Fe fydd yn gyfle ac yn hwb i ddod i nabod y wlad a'i hanes yn well. Ac mi fyddwn yn gwneud yn siŵr fod ymwelwyr i'r wlad, hefyd, yn dra ymwybodol o hanes a thraddodiadau Cymru a Chymry trwy gyfrwng ei chestyll.

Efallai fod yn eich cylch chi Gymdeithas Hanes Lleol neu Gymdeithas Archaeolegol, a'r aelodau'n hyddysg yn hanes y fro. Neu efallai fod rhai o blith eich cylch cydnabod hefo'u gwreiddiau yn ddwfn yn yr ardal, ac yn gwybod pob dim am bob twll a chornel ohoni. Fe fydd angen pobl ddiddorol felly i roi sgyrsiau bach anffurfiol neu dywys grwpiau o bryd i'w gilydd yn ystod y flwyddyn. Os gwyddoch chi am rywun a fyddai'n cael blas ar gymryd rhan yn y gweithgaredd fel hyn, danfonwch ata' i – mi fyddwn yn falch o gael clywed. Ac yn sicr ddigon, mi fyddwn wrth fy modd yn derbyn unrhyw awgrymiadau am ddigwyddiadau, nosweithiau neu gyngherddau yr hoffech chi eu gweld yn ystod yr Ŵyl. Os oes gennych unrhyw beth yr hoffech ei awgrymu, peidiwch petruso, ond danfonwch at:

CATHRYN GWYNN, Bwrdd Croeso Cymru, Tŷ Brunel, 2 Ffordd Fitzalam, CAERDYDD. CF2 1UY.

## DRAENOG



Mae rhoi'r gorau i smocio yn dylanwadu ar rai pobl yn rhyfedd iawn. Dyna'r athro hwnnw o Ysgol Uwchradd leol a benderfynodd loncian yn hytrach na phwffian – **ond** – rhedodd allan o jiws ger cartref un o'i gydweithwyr, a gorfu iddi ei ymgeleddu â phaned o de a'i ddanfon adref yn ei char.

Pobl ryfedd ydi'r Saeson. Maent yn tywallt diod i wydryn, yn dweud 'here's to you' – ac yn ei yfed o eu hunain!'


Wrth droed yr Wyddfa . . .





BWYTY FFERM

BRON ERYRI

LLANBERIS Ffôn 870391

Perchnogion: Mr a Mrs AW Hughes

# CROESAIR EBRILL



**AR DRAWS:**

3. Ein prifddinas (7)
7. Morwra, mewn ffordd, wedi hanner llosgi! (6)
8. Cardota (6)
9. Heddlu lliwgar? (8)
11. Trawiad llygad (4)
12. Ai'r Steffan yma sy'n aderyn? (3,6)
15. Distawrwydd (7)
16. Gwneud twrw, neu ei roi o'r neilltu (4,3)
17. Toriad (4)
18. Croes i ryddid (8)
19. Planed fawr neu ddiwrnod (6)
20. "Ni cheir – heb y chwerw." (1,5)
21. Gwneud llw (6)

**I LAWR:**

1. Myg o lwc yn gwneud pentref ym mro'r Eco! (3,1,3)
2. Pecynnau (7)
3. Pentref wedi'i anfarwoli gan Bob Owen (7)
4. Ffrind Batman! (5)
5. Coeden (7)
6. Ystyllen (5)
10. Drama gerddorol (5)
13. Glaw rydd ŵr o uchel dras (7)
14. Caneuon corawl crefyddol (7)
15. Distawrwydd (7)
16. Gwneud twrw, neu ei roi o'r neilltu (4,3)
17. Blodyn (5)
18. Gwn mawr o offeiria ? (5)

Cyfrif y llythrennau canlynol fel un llythyren – ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th.

Gwobr o £2 i'r ateb cywir cyntaf i'w dynnu. Anfonwch eich cynigion i Twrog Jones, 23 Glanffynnon, Llanrug.

**Atebion Croesair Mawrth: AR DRAWS:** 1. Tebot, 5. Tatws, 8. Arwyr, 9. Ifanc, 10. Ysigo, 11. Larwm, 12. Inc, 13. Si, 14. Sonedwr, 18. Uwd. 19. Ond, 21. Iselder, 25. Cu, 26. Isa, 28. Tranc, 29. Baner, 30. Organ, 31. Yn awr, 32. Neges, 33. Dychan.

I LAWR: 1. Tridiau, 2. Blancedi, 3. Taclus, 4. Gwerin, 5. Trymed, 6. Trin, 7. Stori, 15. Oel, 16. Ebe, 17. Robin Goch, 20. Draenen, 22. Estrys, 23. Diamau, 24. Record, 25. Coban, 27. Unig.

**Enillydd: GORONWY LEWIS, 13, STRYD CEUNANT, LLANBERIS.**





**PLANT BETHEL YN DYSGU TRIN Y RHAFFAU**

Uchod gwelir rhai o blant safon 3 ysgol gynradd Bethel yn dysgu Macrame yng nghwmni Mrs Barlow, dynes lolipop yr ysgol. Daeth Mrs Barlow, sy'n gyn-athrawes, i'r ysgol i rannu o'i phrofiad a'i medr yn y grefft o blethu a chlymu rhaffau i bwrpas addurno.

A dyma Angharad Price yn dal un o'r cynhyrchion gorffenedig.

(Lluniau: Islwyn L. Jones)

# Dyddiadur y Mis

Iau, 1: Waunfawr – Sefydliad y Merched, sgwrs gan Mr Gwynfor Williams ar Wasanaethau Ambiwlans.

Gwener, 2: LLANBERIS – Yr ysgolion yn cau am wyliau'r Pasg.

Te yr Henoed.

Sadwrn, 3: YR ARDAL – Ffair Wanwyn Rhanbarthol Merched y Wawr yn Neuadd y Fyddin, Caernarfon.

Ebrill 4-11: Wythnos Heddwch Byd.

Llun, 5: LLANBERIS – Gyrfa Chwist yn y Ganolfan am 7.30.

Iau, 8: LLANRUG – Y Cyngor Eglwysi – Cymun cyn y Groglith dan arweiniad Gweinidogion yr ardal yng Nghapel Hermon.

Clwb Blodau'r Grug.

YR ARDAL – Yr Ymgyrch dros Ddiarfogi Niwclear – cynhelir cyfarfod ar y Maes Caernarfon am 7.30.

Mawrth 13: LLANRUG – Merched y Wawr – Sgwrs gan Mr Gwilym Owen, Bethel.

Mercher, 14: BETHEL – Cangen Plaid Cymru – Noson o Gawl a Chân yn y Neuadd yng nghmwni Rovi a Gwlith am 7.30.

Gwener, 16: LLANBERIS – Noson o Gyw lâr a Bingo yng Ngwesty'r Gwynedd am 7.30. Yr elw at Gronfa'r Arennau.

Te yr Henoed.

Sadwrn, 17: YR ARDAL – Cwmni Drama Rhuthun dan gynhyrchiad y Parch John Owen yn perfformio 'Y Gŵr o Wlad Us' yn Theatr Seilo, Caernarfon.

Llun, 19: YR ARDAL – Yr ysgolion yn ail-ddechrau.

DEINIOLEN – Merched y Wawr – Noson o 'Hawl i Holi'.

Mawrth, 20: PENISARWAUN – Clwb yr Heulwen.

Mercher, 21: CWM-Y-GLO – Merched y Wawr – Noson yng nghwmni Maureen Rhys a John Ogwen.

Iau, 22: LLANBERIS – Eisteddfod y Plant yng Nghapel Gorffwysfa.

LLANRUG – Ffair Wanwyn Cangen Plaid Cymru yn yr Ysgol Gynradd am 7.00. Mynediad: 10c i blant, 20c i oedolion.

YR ARDAL – Cyngerdd o Dalentau Ddoe a Heddiw yn Ysgol Brynrefail. Yr elw er hyrwyddo costau teithio 'Gwlith' i Iwerddon.

Gwener, 23: LLANBERIS – Eisteddfod y Plant yng Nghapel Gorffwysfa.

WAUNFAWR – Noson o Ddawnsio a Gemau i blant y pentref yn Neuadd yr Eglwys am 7.00 pryd y dewisir Brenhines y Carnifal a'i Gosgordd.

BETHEL – Cwmni Drama Llwyndyrys yn perfformio 'Cilwg yn Ôl' yn y Neuadd am 7.30. Y noson dan nawdd Merched y Wawr.

Llun, 26: LLANBERIS – Gyrfa Chwist yn y Ganolfan am 7.30.

Iau, 29: WAUNFAWR – Gwibdaith Sefydliad y Merched i Gaerdydd.

LLANBERIS – Sefydliad y Merched.

YR ARDAL – Cwmni Drama Llanberis yn perfformio y 'Treble Chance' yn Theatr Seilo, Caernarfon.

Gwener, 30: LLANBERIS – Te yr Henoed.

DYDDIADAU I'W COFIO

Mai 14 – Eisteddfod Penisarwaun.

Mai 28 – Cyngerdd yn Neuadd yr Eglwys, Waunfawr.


MODURDY MENAI



FFORDD CAERNARFON
Y FELINHELI

Ffôn: Y Felinheli 670882
Perchennog: J. Evans



Awdurdod Datblygu Cymru

A ydych chi mewn busnes?
A ydych chi'n meddwl cychwyn ar eich pen eich hun?

Mae Uned Diwydiannau Bychan yr Awdurdod yma i'ch helpu i fod yn llwyddiannus.

Fe gewch gyngor gan arbenigwyr profiadol ym mhob agwedd o redeg busnes. Yr ydym wedi dysgu sut i ddewis y ffordd orau i lwyddo ac yn gwybod am yr anawsterau.

Gallwch fanteisio ar ein cysylltiadau niferus gyda mudiadau eraill sydd yn awyddus i'ch cynghori, ac mae benthyciadau ar log isel ar gael i rai mathau o weithgareddau.

Mae eich swyddfa leol ym Mangor. Cysylltwch â ni i drefnu cyfarfod gydag un o'n cynghorwyr; cewch drafod eich syniadau a'ch gofynion yn rhad ac am ddim.

Uned Diwydiannau Bychan,
Awdurdod Datblygu Cymru,
Isnant, Ffordd Glynne,
Bangor. Ffôn Bangor 52606

Welsh Development Agency

# CHWARAEON

## PÊL-DROED AR Y SUL?

Daeth ymateb i'm cais am sylwadau darllenwyr yr 'Eco' ynglŷn â chwarae pêl-droed ar y Sul. Derbyniais lythyr diddorol gan y Parch H. Thomas, Llannor, sydd wedi bod yn gefnogwr pêl-droed brwd, gydol ei oes. Yn ei lythyr mae'n cyfeirio at lyfr y Parch J. Pritchard ar 'Hanes yr Ysgol Sir ym Mrynrefail'. Ynddo, mae C. Madoc Jones,un o gyn athrawon yr ysgol yn cofio adwaith yr ardal i chwaraeon – o unrhyw fath ac ar unrhyw ddydd o'r wythnos.

*"Rhyfeddai rhai o bobl Brynrefail fod yr athrawon yn chwarae 'tenis' — chwarae peth mor blentynaidd! Rhyfeddasant fwy wedi deall, nid bod y bechgyn yn chwarae'r bêl-droed, ond eu bod yn derbyn cefnogaeth y Llywodraethwyr a'r athrawon, a bod cae wedi ei sicrhau i'r pwrpas. Galwyd sylw at y mater yn y seiat, a rhybuddiwyd y gwŷr ieuainc rhag y gelyn a ddaeth i'w plith! Parhaodd un o'r blaenoriaid — cymeriad rhagorol o'r hen ryw — i gondemnio chwaraeon o bob math tra fu byw. Ond erbyn yr adeg y'm derbyniwyd i i'r Sêt Fawr ym Mrynrefail, darfuasai'r gwrthwynebiad bron yn llwyr. Ac yn y man daeth y pentref i deimlo diddordeb yng nghampau'r ysgol ac i ddymuno ei llwyddiant mewn gornestau ag ysgolion eraill."*


Tybia'r Parch H. Thomas na fyddai yntau 'chwaith wedi derbyn fawr o groeso yn Sêt Fawr, Brynrefail yn y cyfnod hwnnw!

Ond i ddychwelyd i'r testun. Chwi gofiwch efallai, i ymgais gael ei gwneud yn ystod Llywodraeth Doriaidd Heath rhyw ddeng mlynedd yn ôl, i chwarae gemau Cynghrair Arfon ar y Sul oherwydd yr wythnos dridiau o waith. Mae'r Parch H. Thomas yn cofio *"fel 'roedd Llanberis i fod i chwarae Caernarfon ar y Sul. Cysylltais â'r Parch John Owen, Gorffwysfa, a'r Parch G. Watts, Nant Padarn, a rhyngom, llwyddwyd i rwystro'r peth. Ond erbyn hyn mae pethau wedi newid yn arw — Caernarfon yn chwarae bron bob Sul — a llai o barch i bopeth."*

Mae'n honni nad oes gan Gymdeithas Bêl-droed Gogledd Cymru yr un hawl i orfodi unrhyw glwb i chwarae ar y Sul, ac y mae'n mynd ymlaen i sôn fel y mae amryw o glybiau Lloegr â gwaharddiad pendant ar chwarae ar eu caeau ar y Sul. Mae'n rhan annatod o gytundebau nifer o chwaraewyr proffesiynol na fydd iddynt chwarae ar wyliau arbennig megis y Groglith. Mae'n diweddu ei lythyr drwy annog chwaraewyr i beidio â chwarae ar y Sul, ac i wrthod unrhyw gymhelliad i wneud.

Deallaf fod Clwb Pêl-droed Llanrug hefyd yn gwrthwynebu chwarae ar y Sul, a bod y rheol yn rhan o gyfansoddiad y Clwb. Anfonwyd llythyr o brotest gan y Clwb i Gynghrair Arfon, a disgwylir y bydd trafodaeth ar ei gynnwys mewn Pwyllgor Rheoli'r Gynghrair a gynhelir yn ystod yr wythnosau nesaf.

Hyd yma, ni dderbyniais unrhyw sylw **o blaid** chwarae pêl-droed ar y Sul. A yw hyn yn golygu fod gwrthwynebiad cyffredinol gan bawb o ddarllenwyr yr 'Eco' i hyn? Os oes unrhyw un yn teimlo'n gryf o blaid chwarae pêl-droed ar y Sul peidiwch â bod yn gyndyn o roi gwybod i ni, fel y gallwn gynnal trafodaeth lawn ar y pwnc ar y dudalen chwaraeon.



"Neidia i lawr i agor giât y mynydd," gwaeddodd Ifan.

## O BLE DAETH 'SNWCER'?

**Yn dilyn yr erthygl y mis diwethaf ar lwyddiant Clive Griffith yn y byd snwcer, daeth cais yn gofyn am wybodaeth ynglŷn â tharddiad y gêm. Dyma grynodeb byr felly o hanes datblygiad y gêm. Os oes unrhyw un â mwy o wybodaeth i'w gynnig, anfoner air ar frys!**

Mae cysylltiadau agos rhwng snwcer a billiards wrth gwrs, ond mae tarddiad y gêm i'w chanfod ymhell yn ôl yn yr unfed ganrif ar bymtheg. Y pryd hwnnw, dechreuwyd chwarae gêm debyg iawn i 'croquet' ond ei bod yn cael ei chwarae dan do, ac fel arfer ar fwrdd. Yn y gêm honno, roedd peli o bren bocs yn cael eu taro trwy gylchoedd haearn â morthwyl pren. Yn ddiweddarach, gosodwyd pocedi yn y bwrdd yn hytrach na'r cylchoedd haearn, ac weithiau, pan fyddai taro'r peli'n waith anodd, defnyddid coes y morthwyl pren i wthio'r peli tua'r boced. Yr enw ar gynffon y morthwyl pren hwn oedd 'queue' – a dyna sut y cafodd y 'cue' presennol ei enw.

Yn ystod oes y frenhines Victoria, penderfynwyd ar fesuriadau cyffredin gan ddyn o'r enw John Thurston, gwneuthurwr byrddau. Y fo hefyd a fu'n gyfrifol am ddefnyddio y pum darn o lechen sy'n sylfaen i bob bwrdd snwcer bellach. Daeth gêm biliards yn boblogaidd iawn, a rhoddwyd archeb am un o fyrddau Thurston gan y frenhines ei hun ar gyfer ei chartref yn Windsor.

'Roedd biliards felly yn gêm boblogaidd iawn, ond hyd yn hyn, nid oedd sôn am snwcer.

Rhaid symud allan o Brydain i chwilio dechreuad snwcer, a hynny i'r India yn ystod tymor gwlyb 1875. Mewn tref o'r enw Jubbulpore, 'roedd swyddog ifanc o'r enw Neville Chamberlain yn chwarae gêm o 'pyramids', gan ddefnyddio pymtheg o beli coch ac un wen. Er mwyn ceisio gwneud y gêm yn fwy diddorol, ychwanegodd chwech o beli o liwiau gwahanol i'r rhai oedd ar y bwrdd yn barod, ac wele enedigaeth gêm newydd!

Ychydig ddyddiau'n ddiweddarach, tra'n chwarae'r gêm newydd hon, dysgodd Chamberlian mai'r enw am filwr ar ei flwyddyn gyntaf yn yr Academi Filwrol Frenhinol oedd 'snooker' – sef term a ddefnyddid am rywun dwl. Pan fethodd ei gyd-chwaraewr â phocedu pêl hawdd, galwodd Chamberlain ef yn 'snooker', ond rhag ofn ei fod wedi brifo teimladau ei gyfaill, dywedodd fod pawb oedd yn chwarae'r gêm yn 'snooker' – ac felly y bedyddiwyd y gêm newydd.

## DIWRNOD O WANWYN

### — atgofion am gêm bêl-droed gan Goronwy Owen, Porthcawl

'Roedd hi'n ddiwrnod braf yng ngwyliau'r Pasg, 1934 neu 1935, mae'r co yn pallu ac yn colli ffeithiau bach fel hyn weithiau. Y chwarel ar amser byr, a'r hogiau a dau neu dri diwrnod bob wythnos heb ddim i'w wneud. Dyma drefnu gêm yn y Waun, efo hogiau Waunfawr. 'Roeddwn i'n un o'r ychydig oedd heb fynd i weithio yn y chwarel, ond 'roedd gêm i mi hefyd. Oeddwn, roeddwn i'n barod i fynd i'r Waunfawr, ond sut? 'Doedd dim arian bws, 'roedd pob un o hogiau'r chwarel â beic, wel rhyw sgrag o feic, ond 'doedd gen i'r un yn digwydd bod. Trwy Geunant 'roedd wyth yn mynd, a phenderfynu cerdded dros Gefn Du efo Tom Cae'r Frân ac Ifan Huw 'Rallt Goch wnes i.

Cwrdd ag Ifan yn ymyl Bron Eryri, a Tom ar ben allt Dinas. Gwthio'r ddau feic heibio Manllwyd ac at Ty'n Mynydd. Yna, sefyll ar y ddwy nytan oedd yn dal olwyn ôl beic Ifan Huw, dros Gefn Du, ac i lawr i'r Waun. Wrth edrych yn ôl mae dyn yn sylweddoli y pethau hurt a pheryglus mae'r ieuainc yn ei wneud. Mae'n wir mai dwy nytan 'three speed', oeddent, a thipyn yn hirach na'r rhai arferol, ond hoffwn i ddim i neb gael reid fel yna heddiw, yn enwedig ar ffordd mor arw a charegog.

"Neidia i lawr i agor giât y mynydd", gwaeddodd Ifan, "dydi'r braciau ddim yn dal yn iawn". Neidias, a mesur fy hyd ar y llawr. Brysio bodi a rhedeg heibio'r beic, agor a chau'r giât, a neidio yn ôl ar y beic 'roedd Ifan yn ceisio'i orau glas i'w arafu. Gwneud 'run peth wrth yr ail giat a chyrraedd cae'r ysgol yn y pentre. Pawb wedi cyrraedd, a'u sgidiau ffwtbol yn crogi dros eu 'sgwyddau. 'Doedd dim angen newid, 'doedd neb â dillad pwrpasol. 'Roedden ni'n tynnu'n cotiau, torchi'n llewys a throi ati.

Ychydig a gofiaf am y gêm. 'Roedd y cae yn fach, a'r ddwy gôl yn fach, dwy gôl plant bach oeddent. Ar yr asgell chwith roeddwn i yn chwarae, a'r hanner cyntaf yn rhedeg nôl a 'mlaen wrth ochor y wal yng nghanol hen dyniau wedi rhydu. Cofiaf i'r bar ddisgyn ar ben goli Waun wrth i ni sgorio un gôl, a ni enillodd 3-1.

Ar ôl y gêm a'r haul yn dechrau mynd lawr, cychwyn am adre. Tom ac Ifan yn ddoeth iawn yn dewis mynd yn ôl trwy Ceunant efo'r gweddill. Minnau yn dechrau'i throedio hi dros y mynydd ar ben fy hun, ac wedi hen flino. Cyrraedd yr hen dwll chwarel. Englyn Dewi Arfon am 'Ofn y Diawl – ar ben Cefn Du', yn meddiannu fy meddwl a'r un pryd yn cofio fod rhywun, rywbryd wedi boddi'i hun yn un o'r tyllau pella. Dechrau rhedeg ar y gwastad. Oedd, 'roedd gen i dipyn bach o ofn. Mae unigrwydd a chochni'r machlud ar ochor Moel Eilian yn creu awyrgylch. Brysio hebio Barics Mawr, ac i lawr ochor Dinas. Lawr Llainwen ac i'r tŷ.

"Rwyt ti'n hwyr", meddai mam, wrth i mi agor y drws, "mae dy swper chwarel di yn y popty".

'Roedd hi'n deall hogiau.

**ATEBION:**

**Trwynau:** 1. Eliffant; 2. Rheino; 3. Sgwarnog; 4. Mochyn; 5. Llew; 6. Llwynog; 7. Buwch.

**Moroedd:** Y 'môr' nad yw ond llyn yw'r Môr Marw.